



Coleg
Gwent

**ADRODDIAD
BLYNYDDOL A
CHYFRIFON
2023/24**

**ANNUAL
REPORT AND
ACCOUNTS
2023/24**

REOLWYR ALLWEDDOL, BWRDD LLYWODRAETHWYR A CHYNGHORWYR PROFFESIYNOL

Diffinnir Rheolwyr Allweddol fel aelodau o'r Uwch Dîm Arwain (Senior Leadership Team - SLT) a chynrychiolwyd hwy yn 2023/24 fel a ganlyn:



Ceir rhestr lawn o Lywodraethwyr ar dudalen 30 o'r datganiadau ariannol hyn. Bu Mrs Marie Carter yn gweithredu fel Swyddog Llywodraethu drwy gydol y cyfnod.

Cynghorwyr a bancwyr proffesiynol y Coleg am y cyfnod oedd:



CYNNWYS

ADRAN

TUDALEN

Adolygiad o 2023/24	1
Datganiad y gorfforaeth ar reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfiaeth y Coleg â thelerau ac amodau cyllid Llywodraeth Cymru.	23
Datganiad o Lywodraethu Corfforaethol a Rheoli Mewnol	24
Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Gorfforaeth	37
Adroddiad Archwilwyr Annibynnol	39
Datganiad o Incwm Cynhwysfawr	42
Datganiad o Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn	43
Mantolen fel yr oedd ar 31 Gorffennaf 2024	44
Datganiad o Lif Arian	45
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	46

ADOLYGIAD O 2023/24

Mae ein Corff Llywodraethu yn falch o gyflwyno ei adroddiad a datganiadau terfynol a archwiliwyd ar gyfer y flwyddyn a orffennodd 31 Gorffennaf 2024. Paratwir y datganiadau ariannol yn unol â Safon Adrodd Ariannol (Financial Reporting Standard - FRS) 102, Datganiad o'r Arfer a Argymhellir Addysg Bellach ac Addysg Uwch (Further and Higher Education Statement of Recommended practice (SORP) a Chyfarwyddyd Cyfrifon Llywodraeth Cymru (Welsh Government - WG).

EIN STATWS CYFREITHIOL

Sefydlwyd y Gorfforaeth dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 at ddiben cynnal busnes Coleg Trydyddol Gwent. Mae'r Coleg yn elusen eithriedig at ddibenion Deddf Elusennau 2011.

Ymgorfforwyd y Gorfforaeth fel Coleg Trydyddol Gwent. Ar 1 Ionawr 2000, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ganiatâd i'r gorfforaeth newid enw'r Coleg i Coleg Gwent, enw a ystyriwyd i well gynrychioli ystod eang o'r ddarpariaeth a gynigiwyd gan y Coleg.

ADOLYGIAD STRATEGOL

Gosodir ein cyfeiriad strategol yn ein Cenhadaeth a Gweledigaeth sy'n llunio cynnwys Cynllun Strategol y Coleg.

Cenhadaeth

Newid bywydau drwy ddysgu

Gweledigaeth

Erbyn 2026 Coleg Gwent fydd y Coleg o ddewis, sy'n gweithio'n weithredol gyda'n cymunedau, lle mae'r holl ddysgwyr a staff yn cael eu trin â pharch, yn gwireddu eu llawn potensial ac yn elwa o'r adnoddau gorau mewn amgylchedd dysgu ysbrydoledig.

Mae'r cyfeiriad strategol a osodir gan y Gorfforaeth yn cael ei lywio gan anghenion ein dysgwyr.

Mae'r coleg yn gwbl ymrwymedig i wrando ar ddysgwyr er mwyn gwella ansawdd ac mae llais y dysgwyr yn rhan annatod o strategaeth ansawdd y coleg. Mae dysgwyr yn chwarae rhan weithredol yn natblygiad y coleg.

Drwy gydol y pandemig a hyd heddiw, mae'r sector AB wedi elwa o gymorth ariannol rhagorol gan Lywodraeth Cymru. Fe wnaeth y Coleg gyfeirio'r cyllid hwn mewn modd priodol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi'n dda o ran eu prif raglenni o astudiaeth a lles.

Cefnogir ein Cynllun Strategol gan nifer o strategaethau ardal penodol y mae pob un ohonynt yn cael eu gweithredu a'u monitro'n agos ac yn reolaidd drwy Gynllun Gweithredu Strategol. Cynhelir y gwaith monitro drwy Gyfarfodydd Uwch Arweinyddiaeth a drwy'r Corff Llywodraethu a'i is-bwyllgorau.

Mae gan y Coleg set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunwyd arnynt sy'n mesur llwyddiant gweithredu'r dyheadau atrategol.

Budd y Cyhoedd

Elusen eithriedig yw'r Coleg sy'n cael ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru fel Prif Reoleiddwr ar gyfer pob Corfforaeth AB yng Nghymru. Datgelir aelodau'r Gorfforaeth, sef ymddiriedolwyr yr elusen, ar dudalen 30. Wrth bennu ac adolygu amcanion strategol y Coleg, mae gan y Gorfforaeth sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau o ran budd y cyhoedd, ac yn enwedig ei ganllawiau ar hyrwyddo cynnydd addysg. Mae'r canllawiau yn gosod y gofyniad bod rhaid i bob sefydliad sy'n dymuno cael ei gydnabod fel elusen ddangos yn eglur bod eu nodau er budd y cyhoedd. Wrth gyflawni ei genhadaeth, mae'r coleg yn darparu'r buddion cyhoeddus canfyddadwy drwy welliant addysg:

- Addysgu a dysgu o ansawdd uchel
- Ehangu cyfranogiad a mynd i'r afael ag amddifadedd
- Systemau cymorth myfyrwyr cryf
- Cysylltiadau cryf gyda chyflogwyr

Nodir darpariaeth budd cyhoeddus drwy gydol yr adolygiad Corfforaethol hwn a thrwy'r Coleg yn cyflawni nodau a dangosyddion perfformiad allweddol.

At ddibenion monitro perfformiad, mae gan y Coleg nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAu) cytunedig sydd yn cefnogi'r blaenoriaethau ac amcanion strategol, a gellir eu gwahanu'n fras i mewn i DPAu dysgwyr, staff a pherfformiad ariannol.


Yn sgil y heriau parhaus a wynebwyd drwy gydol y flwyddyn, roedd perfformiad cyffredinol y coleg yn erbyn eu DPAu ar gyfer 2023/24 yn gyffredinol dda, ond mae yna feysydd sydd yn mynnu gwelliant. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn ein Cynlluniau Gweithredu Strategol ac adolygir y rhain drwy gydol y flwyddyn.

Cyflwynir crynodeb o DPAu ym mhob cyfarfod Bwrdd. Mae'r ddelwedd ar y dudalen nesaf yn crynhoi ein safle o ran allbwn ar gyfer 2023/24 gyda manylion pellach a naratif a ddarperir dros y tudalennau dilynol.


KPIs Academic Year 2023/24

Vision & Culture


College's Digital Provision Satisfaction Rate




Learners Rate their College Experience as Good or Excellent




Teaching Success Programme



Coleg Gwent Employer Pledge



Level 3 Learners - Work Experience



Our Learner Performance


All Learners Who Complete a GCSE Resit Programme Improve by at Least One Grade

49% Actual
80% Target


All GCSE resit learners have baseline assessment within 4 weeks

83% Actual
90% Target


To Achieve at Least 90% Full Time Attendance




To Achieve at Least 90% Full Time Retention



To Achieve at Least 92% HE Retention



Attainment



Health, Safety & Sustainability

Reduce un-recycled waste E

60.0% Target
68.98% Actual



Increase Waste Recycle (R) Rate

40% Target
31.02% Actual



Volume of waste produced

324,941kg Target
568,580 kg Actual



CO2 Emissions

3,574,202kg Target
1,755,907kg Actual



No. of Accidents/Year

<90 Target
85 Actual



Colleague Absence Rate

<5% Target
5.98% Actual




Achieve certification by December 2024

Target: To achieve




Financial Performance


EBITDA




Current Ratio



Full-Time Funding Allocation



Part-Time Funding Allocation



Operating Surplus

Target: £1.0m
Actual: £-0.7m

Mae'r naritif sydd ar dudalennau 5 hyd at 20 yn manylu ymhellach ar ein perfformiad yn erbyn ein targedau DPA sydd wedi'u cynnwys o fewn y meysydd allweddol canlynol:


Our Financial Performance	• Page 5
Our Learners	• Page 9
Curriculum Development	• Page 11
Investment in Staff	• Page 14
Investment in Estate, Technology & Physical Resources	• Page 16
Partnerships	• Page 17
Health, Safety & Environmental Performance	• Page 18

EIN PERFFORMIAD ARIANNOL

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn dangos y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024.

Dylid nodi: er i'r Coleg barhau i fod yn rhan o strwythur Grŵp drwy gydol 2023/24, ni chafwyd unrhyw weithgarwch o fewn yr is-gwmnïau yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd y perfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn felly yn cael ei drafod dim ond yng nghydestun y Coleg drwy gydol yr adroddiad. Mae sefydliadau wedi cael trafferth o hyd gydag effaith ariannol chwyddiant sydd wedi gostwng ond sy'n parhau i fod yn uchel eleni. Mae perfformiad y Coleg yn erbyn eu DPAu ar gyfer 2023/24 wedi bod yn wydn gyda gwarged gweithredu ac EBITDA (Enillion Cyn Llog, Trethi, Dibrisiant ac Amorteiddio) yn agos at y Gyllideb. Fe wanaeth perfformiad o ran targedau wella wrth i'r Coleg fodloni ei dargedau mewnol. Fe gynyddodd niferoedd o ddysgwyr llawn amser gan 347 a niferoedd o ddysgwyr



rhan amser gan 299

Dylid nodi hefyd, megis y blynyddoedd cynt yr effeithiwyd arnynt gan Covid, bod y DPAu a gynhyrchwyd ar gyfer 2023/24 yn wyrgam oherwydd lefel y grantiau LIC ychwanegol a gafwyd ac a wariwyd yn ystod y flwyddyn.

Am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf, mae cyfrifon rheolaeth fewnol y Coleg yn datgan **diffyg ariannol gweithredu o £697k**. Gosodir cymod y sefyllfa hon i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr (tudalen 42) yn y tabl ar y dudalen nesaf.

Cysoni Cyfrifon Rheolaeth gyda Datganiad Cynhwysfawr o Incwm

	Gwirioneddol 2023/24 £k	Gwirioneddol 2022/23 £k
(diffyg)/gwarged gweithredu cyn costau pensiwn anariannol ac eitemau eithriadol	(697)	2,581
<i>Llai: Costau pensiwn anariannol</i>	628	(2,133)
(Diffyg)/gwarged gweithredu cyn eitemau eithriadol	(69)	448
<i>Costau ailstrwythuro staff</i>	(1,007)	(391)
<i>Elw ar waredu asedau</i>	3	29
(Diffyg)/Gwarged ar gyfer y flwyddyn	(1,073)	86
<i>Enillion actiwaraidd o ran cynlluniau pensiwn</i>	8,128	21,733
Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	7,055	21,819

Mae'r diffyg gweithredu o £697k yn ostyngiad ar y gwarged gweithredu o £2,581k a adroddwyd yn 2022/23, ond yn uwch o lawer na'r targed a osodwyd ar gyfer 2023/24. Er bod hyn yn adlewyrchu ymdrechion parhaus a wneir gan y Coleg i fynd i'r afael â phwysau cynyddol o ganlyniad i gostau staff yn cynyddu ac incwm craidd yn cynyddu'n is na chwyddiant, roedd yn dal i deimlo effaith pandemig Covid-19 drwy gydol y flwyddyn ariannol, yn enwedig ar dueddiadau recriwtio llawn amser a lles ac ymddygiadau dysgwyr.

Roedd y Coleg yn ffodus i gael gwarchodaeth am y rhan fwyaf o'u ffrydiau incwm drwy gydol y pandemig. Unwaith eto yn 23/24, bu Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen a'i hymrwymiad i ariannu adfer dysgwyr drwy ddarparu nifer o grantiau. Fe wnaeth hyn ganiatáu i'r Coleg ariannu cymorth ychwanegol mawr ei angen ar gyfer ein dysgwyr, o ran addysgu a dysgu yn ogystal â lles a chyfoethogiad.

Materion eraill i'w nodi ac sydd i gyfrif yn y gwarged gweithredu:

Costau pensiwn anariannol - mae'r diffyg am y flwyddyn yn cynnwys credydau anariannol gwerth £628k (2,133k yn 2022/23) a codwyd o ganlyniad i gyfrif Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leolyn yn unol â FRS 102 sy'n cynnwys dwy elfen:

<i>Ffi Adrodd Ariannol Rhyngwladol 102 (o dan)/dros gyfraniadau</i>	<i>(£345k)</i>	<i>(22/23)</i>	<i>£1,613k)</i>
<i>(Credydau)/costau Cyllid pensiwn</i>	<i>(£283k)</i>	<i>(22/23)</i>	<i>£520k)</i>

Mae newidiadau i ragdybiaethau actiwaraidd a symudiadau'r farchnad o ran asedau a ddelir gan y cynllun pensiwn (y mae'r ddau y tu allan i reolaeth y Coleg) yn cael effaith ar gredydau'r cyfrif incwm a gwariant.

Costau ailstrwythuro Staff - ysgwyddwyd cyfanswm o £1,007k o gostau (2023: £391k) o ganlyniad i ariannu ymddiswyddiadau eithriadol yn ystod y flwyddyn.

Croniad cyflog gwyliau mwy - mae safonau cyfrifo yn gofyn i'r Coleg ystyried cost hawl gwyliau sy'n ddyledus a ddelir gan staff ar ddiwedd y flwyddyn ar ffurf cronriad. Bob blwyddyn, mae'r coleg yn annog pob aelod staff i archebu eu gwyliau blynyddol drwy system archebu electronig y Coleg. Ar ddiwedd y flwyddyn, caiff unrhyw wyliau nas cymerwyd ei gostio drwy ddefnyddio cyfradd gyflog ddyddiol a'r cyfanswm a gronnwyd yn eu datganiadau ariannol blynyddol.

Yn ystod 2023/24, bu cynnydd o £21k yn y cronfeydd cyflog gwyliau, gan ddod â chyfanswm y cronfeydd i £688k. Mae hyn yn arwydd o batrymau gweithio yn dychwelyd i'r arfer wedi'r pandemig.

Polisiau ac Amcanion y Trysorlys

Mae rheoli'r trysorlys yn golygu rheoli llif arian y Coleg, ei drafodion bancio, masnach arian a chyfalaf; rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; ac ymdrechu tuag at y perfformiad gorau posib yn unol â'r risgiau hynny.

Mae gan y Coleg bolisi Rheoli Trysorlys ar wahân mewn lle. Disgwylir i adolygiad nesaf y polisi ddigwydd ym mis tachwedd 2025.

Arian

Balans ariannol y coleg ar 31 Gorffennaf 2024 oedd 6.4m (2023 - 33.6). Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Coleg fuddsoddi £3.1m (2023:6.8m) mewn adnoddau cyfalaf er budd dysgwyr a staff, y gellir gweld manylion o hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad. Fe wnaeth hefyd osod £21m mewn cronfeydd adnau tymor byr gyda banciau'r DU, gan aeddfedu ym Medi 2024, Hydref 2024, Ionawr 2025 ac Ebrill 2025, yn unol a'i bolisi Rheoli'r Trysorlys. Y ffactor arall a gyfrannodd at y gostyngiad yn y balans ariannol diwedd y flwyddyn oedd y defnydd o grantiau LLC a oedd heb eu gwario o'r blaen.

Effaith costau pensiwn ar ganlyniadau'r Coleg

Mae'r anwedolrwydd sy'n deillio o ofynion cyfrifyddu'r buddion ôl-gyflogaeth a osodir yn FRS 102 yn cael effaith sylweddol ar ganlyniadau'r Coleg. Mae'r safon gyfrifyddu hon yn gosod y gofynion sydd ar y Coleg i gyfrif am gost ei ymrwymiad i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) o ran a'i staff cymorth busnes. Mae newidiadau i ragdybiaethau actiwaraid a symudiadau'r farchnad o ran asedau a ddelir gan y cynllun pensiwn (y mae'r ddau y tu allan i reolaeth y Coleg) felly yn cael effaith ar daliadau i'r cyfrif incwm a gwariant, yn ogystal â'r rhwymedigaethau neu'r asedau a ddangosir ar y fantolen. Am y drydedd flwyddyn yn olynol (2023/24), mae llawer o gynlluniau pensiwn wedi gweld gwelliannau sylweddol o ran eu sefyllfa ariannu, yn bennaf o ganlyniad i gynydd sylweddol y gyfradd ddisgownt a gymhwysir i rhwymedigaethau yn y dyfodol.

Megis yr hyn yr eglurwyd uchod, mae'r gwarged ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys credydau anariannol o £628k (costau o £2,133k yn 2023) i godi o ganlyniad i gyfrif am y CPLIL yn unol â FRS102.

Yn ogystal, mae gwarged pensiwn y CPLIL, sef £14.2m, wedi cael ei gydnabod ar y fantolen fel ased nad yw'n gyfredol. Cafodd pensiwn y CPLIL hefyd ei gydnabod fel ased yn 2022/23 (2023 - £5.6 m). Cyfeiriwch at Dudalen 51 lle manylir ar y rhesymeg dros gydnabod y gwarged pensiwn yn y nodiadau sydd yn ymwneud â dyfarniadau arwyddocaol.

Ysgogir y symudiad cadarnhaol hwn yn bennaf gan y gyfradd ddisgownt ar gyfer rhwymedigaethau yn cynyddu o 3.5% yn 2022 i 5.05% yn 2023 a 5.00% ar hyn o bryd yn 2024.

Mae'r cynnydd o 5.3% mewn gwerth y buddsoddiadau sylfaenol a ddelir yn y gronfa dros y flwyddyn hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar y prisiad pensiwn a'r prisiad fel gwaged.

Mae cynhyrchu gwaged pensiwn wedi cael effaith gadarnhaol ar fantolen y Coleg, gyda chronfeydd wrth gefn yn cynyddu gan £7.1m i £55.8m (2023 - £48.7m). Nid oes llawer y gall y Coleg ei wneud i ddylanwadu ar symudiadau sefyllfa'r pensiwn heblaw newid cyfradd gyfraniad y cyflogwr. Fe wnaeth prisiad tair blynedd y Cynllun, a gynhaliwyd yn 2022, arwain at gyfradd gyfrannu'r cyflogwr yn cynyddu o 12.6% i 19.8%. Disgwylir i'r prisiad nesaf gael ei gynnal yn 2025.

Wrth ystyried effaith y gofynion cyfrifyddu hyn ar sefyllfa ariannol y Coleg, dylid nodi bod pensiynau, yn ôl eu natur, yn rhwymedigaethau hirdymor a bod y Coleg, wrth fodloni'r rhwymedigaethau hyn, yn talu cyfraniadau'r cyflogwr i'r cynllun pensiwn a osodwyd gan reolau'r cynllun CPLLL.

Perfformiad Talu


May gan y Coleg delerau talu 30-diwrnod safonol gyda'r mwyafrif o'i gyflenwyr, ac mae'n cadw'n unol â gofyniad y Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998. Caiff cyflenwyr eu hysbysu am y telerau hyn drwy ddarparu copi o delerau ac amodau'r Coleg gyda phob archeb brynu.

Mae cyfrifo perfformiad talu, fel y pennwyd yn wreiddiol yng Nghyfarwyddyd y Cyfrifon, yn seiliedig ar ffigur credydwyr diwedd-flwyddyn ac ar 31 gorffennaf 2024 roedd yn 1 diwrnod (2023-6 diwrnod).

EIN DYSGWYR

Niferoedd o Ddysgwyr

Yn 2023/24, Coleg gwent oedd y Coleg o ddewis i 15,446 o ddysgwyr (2022/23 - 14,456):



Amrywiaeth Ein Dysgwyr

Mae'r Coleg yn cofrestru myfyrwyr amrywiol sy'n dangos yn fras y cymunedau y mae'r campysau'n eu gwasanaethu, y pum masnachfaint Addysg Gymunedol sirol a'i raglen Dysgu Seiliedig ar Waith. Yn 2023/24, daeth 9.4% (22/23 - 9.2%) o'n dysgwyr o grwpiau BME ac fe ddatganodd 18.5% (22/23 - 18.7%) o ddysgwyr eu bod ag anabledd ac/neu anhawster dysgu.

Cynyddodd nifer y dynion sy'n astudio yn y coleg ychydig iawn i 47.6% (22/23 - 47.3%) o ddysgwyr y Coleg yn 2023/24.

Mae'r Coleg yn gwasanaethu cyfran arwyddocaol o ddysgwyr o ardaloedd o amddifadedd uchel o'i gymharu â chyfartaledd diweddaraf y sector sydd ar gael (52.9% o'i chymharu â chyfartaledd sector o 49%). Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio ar draws ein campysau, gyda chyfran uwch o ddysgwyr o ardaloedd o amddifadedd uchel ym Mharth Dysgu Blaenau Gwent (64.8%) o'i gymharu â niferoedd is o lawer yng Nghampws Brynbuga.

Mae dysgwyr o bob degradd yn perfformio'n dda ym mhob agwedd, ac mae hyn yn gyson ar draws y categorïau. O gymharu deilliannau dysgwyr o ddegraddau 1 gyda degraddau 5-10, mae'r gwahaniaeth yn y gyfradd llwyddiant yn unol â chyfartaledd y sector a chyda'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn sicrhau fod y Coleg yn cefnogi ei ddysgwyr yn dda a'i fod gyda strategaethau mewn lle i leddfu effaith andwyol bosib amddifadedd ar ddysgu.

Deilliannau Dysgwyr

Mae'r coleg yn hynod falch o gyflawniadau ei ddysgwyr wrth i weithgarwch ddychwelyd i lefelau cyn-bandemig. Unwaith eto, mae meincnodi perfformiad gyda phendrantrwydd yn anodd, er bod y coleg yn defnyddio meincnodi mewnol i helpu gwerthuso lle y gwneir gwelliannau.

Mae adborth dysgwyr drwy holiaduron a fforymau dysgwyr yn datgan eu bod yn bodlon iawn gyda'u profiad yn y coleg. Mae'r holl ddysgwyr yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y coleg sydd yn dda o beth o ystyried cychwyn menter 'Yn Barod, Yn Barchus, Yn Ddiogel' y coleg y flwyddyn academaidd hon.

Mae recriwtio myfyrwyr llawn amser wedi dechrau gwella, ac fe recriwtiodd y coleg tua 360 dysgwr llawn amser ychwanegol yn 2023/24. Roedd presenoldeb myfyrwyr yn parhau i fod yn heriol ledled yr holl sector addysg, ac mae yna lawer o ddysgwyr sydd yn adrodd lefelau

uchel o bryder o hyd oherwydd y pandemig. Defnyddiwyd ystod eang o gymorth ychwanegol drwy gydol y flwyddyn gyda Llywodraeth Cymru yn gwneud cymorth ariannol ychwanegol ar gael i helpu i ddarparu hyn.


Eleni gwelwyd y cam terfynol tuag at uniaethu â deilliannau cyn-bandemig o ran Lefelau A, gyda dileu lliniaru ac, o ganlyniad, canlyniadau cenedlaethol a feincnodwyd yn cwmpo.

Bu dros 5,000 o ddysgwyr llawn amser yn astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a safodd 1,400 o ddysgwyr eraill tua 3,200 arholiad ledled Safon UG ac Uwch. O'r rhain, fe gyflawnodd 19 o bynciau Safon Uwch gyfradd lwyddo o 100% a symudodd llawer o ddysgwyr ymlaen i brifysgolion yn y Grŵp Russell neu Rhydychen/Caergrawnt.

Mae'r coleg yn parhau gyda'i ddarpariaeth hynod lwyddiannus o Gyfrifon Dysgu Personol (Personal Learning Accounts - PLA) sy'n helpu oedolion i ymgymryd â chymwysterau a gymeradwyir gan ddiwydiant, gan eu galluogi i symud ymlaen yn eu gyrfaedd mewn meysydd allweddol o gyflogaeth â blaenoriaeth.

Canlyniadau Safon Uwch

Eleni, fe welsom ddulliau cyn-bandemig o asesu a graddio yn dychwelyd, gyda chanlyniadau cyffredinol ledled Cymru yn dychwelyd i lefelau cyn-bandemig. Y canlyniadau ar gyfer arholiadau Safon Uwch oedd 96% gyda'r nifer o ddysgwyr yn cyflawni graddau A* - A yn 18%



Y gyfradd basio yn yr Heriau Sgiliau Uwch (cyfwerth Safon Uwch) oedd 94%, sydd yn dda o beth gan ystyried y nifer uchel o geisiadau (dros 900).

Canlyniadau TGAU

Fe enillodd 91% o'n dysgwyr a ddilynodd raglen astudieaeth TGAU Mathemateg gymhwyster (A* i G), sydd yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. O'r rhain, fe gyflawnodd 19.9% raddau A* i C, sydd yn gynnydd ar y flwyddyn flaenorol ac yn dda o beth i gymharu a'r cyd-destun o graddau yn disgyn yn genedlaethol.

Ar gyfer TGAU Saesneg, fe gyflawnodd 97% o'n dysgwyr y cymhwyster (A* i G) sydd eto yn welliant ar y flwyddyn flaenorol ac yn uwch na chymharydd cenedlaethol Cymru. Fe wnaeth 18% ennill graddau A* i C.

Canlyniadau galwedigaethol

Cyrhaeddiad cyffredinol ym mhob prif gymhwyster ar 19 Medi 2024 yw 88%. Mae hyn yn debyg i'r un pwynt flwyddyn diwethaf, er ei fod yn debygol o gynyddu i tua 91%. Mae'r gyfradd gadw yn gyson ar 86%, ond mae hyn yn aros yn is na blynyddoedd cyn-bandemig lle'r gyfradd gadw oedd 89-90%. Mae hyn yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth.

Rhagwelwn, erbyn i'r data gau, y bydd pobl sy'n dilyn cyrsiau BTEC yn llwyddo yn fras yn unol â blynyddoedd blaenorol gyda phroffiliau tebyg o ran graddau.

Prentisiaethau

Ni chaiff y gyfradd lwyddiant ar gyfer Prentisiaethau ei therfynu tan fis Rhagfyr bob blwyddyn, ond mae'r Coleg yn rhagweld canlyniad o 75% ar gyfer 23/24. Mae hwn yn gyson â chanlyniadau terfynol y blynyddoedd diwethaf, ac er ei fod yn is na'r nod uchelgeisiol a a osodwyd gan y coleg i'w hun, mae'n debygol o fod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae gwerth contractau'r coleg hefyd wedi aros yn gyson, gyda'r ffocws yn bennaf ar wella ansawdd canlyniadau.

Nodau Cyllid

Mae recriwtio llawn amser ar draws y sector wedi dechrau adfer wrth i ni barhau gydag ein harferiad wedi'r pandemig. Yn gyffredinol, fe wnaeth y Coleg gyflawni 92.1% o'i ddyraniad llawn amser, sydd yn welliant sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fe wnaeth recriwtio rhan amser gynyddu'n sylweddol o'i gymharu â blynyddoedd y pandemig, ac fe wnaeth y coleg gyflawni tua 98% o'i ddyraniad cyllid.

Roedd 2023/24 yn flwyddyn lwyddiannus arall ar gyfer Cyfrifon Dysgu Personol gyda'r coleg yn cyflwyno gweithgarwch werth dros £2.6m.

Ceir rhywfaint o ansicrwydd o hyd o ran dyfodol y model ariannu ar draws y sector ôl-16 o ganlyniad i sefydlu Medr. Mae dyraniadau cyllid ar gyfer 2024/25 wedi cwmpo'n sylweddol i lawer o golegau, rhywbeth sydd yn cyflwyno her, yn enwedig o ystyried costau byw'n cynyddu a lefelau uchel o chwyddiant. Daw hyn ar adeg pan mae recriwtio dysgwyr nawr yn ymddangos i fod ar gynydd o'i gymharu â hanes o gyllid dirywiol o ganlyniad i'r model tair blynedd cyfartalog. Mae'r coleg yn cyfrannu'n weithredol at drafodaethau o fewn y sector i helpu i reoli'r sefyllfa hon.

DATBLYGU'R CWRICWLWM

Mae ein cwricwlwm yn parhau i ddatblygu er mwyn diwallu anghenion ein rhanddeiliaid a'r cymunedau a wasanaethwn. Mae'r cwricwlwm yn eang, fel un o'r ychydig ddarparwyr ôl-16 sydd yn cynnig cyrsiau ar draws pob Sector Pwnc Subject Sector Area - (SSA). Mae cyfleoedd dilyniant yn rhan bwysig o'n cynllunio a datblygu, gyda llwybrau o lefel Mynediad hyd at Addysg Uwch, gyda phortffolio Lefel 6 sydd yn cynyddu.

Mae gweithio gyda chyflogwyr yn flaenoriaeth allweddol i ni, gan feithrin partneriaethau i helpu i lywio a gwella'r hyn y mae'r cwricwlwm yn ei gynnig ac yn ei ddarparu. Mae alinio cynnig ein cwricwlwm â blaenoriaethau lleol a rhanbarthol yn thema bwysig i bob cyfadran, gan ddefnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur a neilltuo ein tîm Ymgysylltu â Chyflogwyr i gyflogwyr allweddol.

Mae datblygu sgiliau yn flaenoriaeth uchel o hyd wrth i ni ddarparu'r Heriau Sgiliau Uwch neu'r rhaglen Sgiliau Agored newydd i bob dysgwr amser llawn, ynghyd â llwybrau TGAU lle

mae angen i ddysgwyr ddatblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd. Mae gan ddysgwyr gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac mae hyn yn rhan annatod o'r broses ddysgu ar gyfer pynciau â blaenoriaeth fel Iechyd, Gofal Plant, Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cyfryngau.

Mae buddsoddi mewn adnoddau yn parhau i'n galluogi i sicrhau cynnig cwricwlwm sy'n gyfredol ac yn berthnasol, gan arwain at ddysgwyr yn meddu ar y sgiliau i allu symud ymlaen i gyflogaeth. Er enghraifft, mae gennym fflyd helaeth o gerbydau trydan yn yr adran peirianeg chwaraeon modur, labordy cyfansoddion sector-arweiniol, Seiber hwbiau ac ystafelloedd efelychu gofal iechyd, ynghyd â chyfleusterau gofal anifeiliaid a cheffylau helaeth.

CYFLAWNIADA U DYSGWYR

Fe wnaeth ein Hacademi Rygbi Merched gadw eu coron unwaith eto, am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, yng nghystadleuaeth 7 bob ochr URC yr Urdd. Yn wirioneddol ddiguro.

Rydym wedi cael blwyddyn hynod lwyddiannus arall yn WorldSkills UK. Rydym yn falch iawn o'n dysgwyr, y gwnaeth 11 ohonynt gyrraedd y rowndiau terfynol, gan ennill cyfanswm o bedair medal a oedd yn cynnwys aur ac arian. Mae hyn yn ail-gadarnhau ein safle yn neg coleg gorau'r DU ar gyfer hyfforddi sgiliau, gan orffen yn 4^{ydd} yn gyffredinol, sy'n nodedig iawn.

Fe wnaethom rannu noson ardderchog gyda Sam Warburton yn ein Seremoni Wobrwy Dysgwyr flynyddol i anrhydeddu dysgwyr ysbrydoledig a'u hymroddiad a'u cyflawniadau yn ystod y flwyddyn academaidd.

DATBLYGU'R CWRICWLWM

Rydym wrth ein bodd gyda chynnydd y cyfleuster HIVE newydd yng Nglynebwy sydd i fod yn gwbl weithredol ar gyfer blwyddyn academaidd 2025. Bydd y cyfleuster sector-arweiniol hwn yn darparu hyfforddiant ac addysg arloesol mewn roboteg, deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch a thechnolegau digidol a galluogol.

Mae ein rhaglen Interniaeth â Chymorth Sgiliau Byw'n Annibynnol (Independent Living Skills - ILS) (Llwybr 4) yn mynd o nerth i nerth o hyd. Mae lleoliadau gydag ystod o gyflogwyr yn y meysydd iechyd ac arlwy (i enwi dim ond dwy ddisgyblaeth) o fudd i'n dysgwyr ILS. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant ysgubol, gyda llawer o ddysgwyr yn ennill cyflogaeth o ganlyniad. Fis diwethaf, i ddathlu rhagoriaeth mewn coginio, fe ymunodd ein dysgwyr coginio proffesiynol lefel 2 a lefel 3 ag Arglwydd Faer Caerdydd, y Cynghorydd Bablin Molik, a 100 o westeion parchus yn y cinio diweddaraf i ddathlu lansio llyfr Fforwm y Cogyddion, *The Chefs' Knowledge*

Mewn cam arloesol tuag at gynhwysiant a chyfle cyfartal, fe wnaethom ymuno ag Agored Cymru a'r Athro Paul Edwards i gynnig cyfle i fyfyrwyr o gefndiroedd llai breintiedig ddilyn cwrs Mynediad i Feddygaeth.

Y cwrs, sy'n paratoi myfyrwyr i astudio ar gyfer Gradd Llwybr Meddygol, yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru.

**CYFOETHOGI
DYSGWYR**

Fe aeth dysgwyr ILS o Gampws Crosskeys ar daith awyren Ffrainc, gan gymryd rhan mewn gweithdai a gweithgareddau i wella eu sgiliau cyfathrebu a'u hyder a dod yn arbenigwyr ar system drafnidiaeth danddaearol Paris.

Treuliodd ein dysgwyr gofal anifeiliaid ar Gampws Brynbuga bythefnos yn India fel rhan o raglen 'dinasyddiaeth fyd-eang' lle cawsant gyfle i ymweld â safari llewpard a noddfa Eliffantod.

Treuliodd dysgwyr peirianeg yn BGLZ bythefnos yn Nhwrci yn ffatri Ciner Glass, gan brofi cyfleuster modern o'r radd flaenaf a chawsant gyfle i allu archwilio Istanbul am benwythnos.

**GWOBRAU A
DHATHLU**

Dyfarnwyd Gwobr Arian i'r darlithydd peirianeg, Alexis Dabee-Saltmarsh, am Ddarlithydd Addysg Bellach y Flwyddyn yng Ngwobrau Addysgu Cenedlaethol Pearson. Cafodd Alexis ei henwebu o blith miloedd o enwebeion, sy'n gyflawniad rhyfeddol.

Rydym yn falch iawn o gael ein cydnabod eto gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) am ein safonau academaidd uchel. Rhoddodd QAA ganmoliaeth ar draws holl ofynion academaidd y DU heb nodi meysydd i'w gwella na'u datblygu.

Fel arweinydd Partneriaeth Dysgu Oedolion Gwent Fwyaf, enillodd y bartneriaeth ganmoliaeth ddisglair yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan Estyn, arolygiaeth addysg Cymru.

BUDDSODDI YN EIN STAFF

Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi parhau i ymgorffori ein Strategaeth Bobl a gwella profiad ein cydweithwyr. Rydym wedi gwneud cynydd sylweddol yn y meysydd Dysgu a Datblygu, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac Iechyd a Lles. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr yr Undeb i ddatblygu dull Partneriaeth Gymdeithasol a gefnogwyd gan adolygu a datblygu polisi.

Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Rydym wedi parhau i feithrin diwylliant o ddysgu a datblygu lle mae dysgu gydol oes yn cael ei hyrwyddo trwy ein proses ariannu unigol a thrwy ddatblygu'r Hwb DPP, sy'n cynnig adnoddau a chysiau i'r holl staff eu defnyddio.

Mae ein Diwrnodau Dysgu Proffesiynol (Professional Learning Days - PLD) yn ceisio darparu hyfforddiant sydd wedi'i addasu i'r Gyfadran a'r Adran ochr yn ochr â diwrnodau hyfforddi i bob aelod o staff sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau dysgu a datblygu'r gorfforaeth. Nod y PLD yw cynnig dull amlochrog o ddysgu a datblygu, gan ganiatáu i staff addasu'r diwrnodau hyfforddi i sicrhau eu bod yn cael yr hyfforddiant mwyaf priodol iddynt, gan gefnogi blaenoriaethau unigol, adrannol a sefydliadol.

Gwnaethpwyd buddsoddiadau sylweddol i wella ein cynnig o ddysgu a datblygu yn ogystal â gwella monitro ac olrhain cwblhau cyrsiau (yn enwedig ar gyfer yr holl hyfforddiant gorfodol). Cyflawnwyd hyn trwy lansio System Rheoli Dysgu (Learning Management System - LMS) newydd y Coleg.

Hefyd, cydnabuwyd ein hymdrechion yn y maes Dysgu a Datblygu yng ngwobrau CIPD De Cymru lle enillasom 'ganmoliaeth uchel' am y Fenter Dysgu a Datblygu orau.

Tâl Staff

Mae'r Coleg yn dangos gwerth i'w staff drwy adolygu cyflog a gwobrwy bob blwyddyn er mwyn sicrhau y cynhelir agwedd gystadleuol ac y cydnabyddir cyfraniadau staff i lwyddiant y Coleg. Roedd y codiad cyflog yn 2023/24 i gydnabod pwysau costau byw a derbyniodd yr holl staff gynydd o 5%; mae'r holl raddau cyflog yn uwch na'r Cyflog Byw Go Iawn.

Mae'r Coleg hefyd yn ceisio sicrhau tegwch a thryloywder o ran dyrannu tâl a'r adroddiad blynyddol ar y bwlch tâl rhwng y ddau ryw yw un elfen o hyn. Yn ystod 2023/24 fe wnaethom adrodd bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau o 7.01% a bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau o 14.66%.

Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi parhau i yrru diwylliant o gynhwysiant a dathlwn amrywiaeth ein dysgwyr, ein cydweithwyr, ein cymunedau a'n rhanddeiliaid. Mae ein cyflawniadau dros y 12 mis diwethaf yn cynnwys:

- Lansio'r ymgyrch "Cofleidio Amrywiaeth" i sicrhau fod amrywiaeth yn rhan o bob agwedd ar ymarferion gweithio a'r profiad coleg.
- Cyflwyno ein gŵyl aeafol yn llwyddiannus, sef Gŵyl y Rhew. Roedd Amrywiaeth a Chynhwysiant yn thema a oedd wrth wraidd y dathliad a chawsom 300 o fynychwyr.

- Mae ein rhwydweithiau affinedd staff (sydd â dros 200 o aelodau) yn parhau i gyfarfod a chydweithio mewn paratoad at ddiwrnodau ymwybyddiaeth allweddol a dathliadau ar ein calendr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Cydnabuwyd Gwrth-Hiliaeth fel blaenoriaeth ddysgu corfforaethol ar gyfer y Coleg ac fe barhaodd y ddarpariaeth o hyfforddiant gwrth-hiliaeth i'r holl staff.
- Gweithredu 'Cyflenwi Cynhwysol' drwy'r cynllun cyfweiliadau Gwarantedig er ethnigrwydd i helpu i gynyddu nifer y gweithwyr sydd o gefndiroedd amrywiol.

Iechyd a Llesiant

Mae iechyd a llesiant cydweithwyr hefyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn y Coleg, a pharhawn i ymateb i adborth gan arolygon staff o ran dangosyddion Llesiant a chyfraddau absenoldeb cydweithwyr.

Mae'r gweithredoedd dros y 12 mis diwethaf wedi cynnwys y canlynol:

- Cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o hunanladdiad i reolwyr.
- Cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r menopos.
- Cyflwyno gwiriadau iechyd staff ar gyfer pob cydweithiwr ledled y campysau.
- Bwrw ymlaen â defnyddio a hyrwyddo'r ap llesiant Headspace. Mae hwn ar gael i bob cydweithiwr a dysgwr.
- Mynediad parhaus at gymorth iechyd meddwl diwylliannol sensitif i bobl o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig trwy'r gwasanaeth CCAWs.
- Rhoi cyfle i gydweithwyr ymuno â'n 6 rhwydwaith affinedd staff.

Amser cyfleuster undebau llafur


Mae Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleusterau) 2017 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r coleg gyhoeddi gwybodaeth am drefniadau amser cyfleuster ar gyfer swyddogion undebau llafur yn y coleg.

Nifer cyfartalog o weithwyr	1,248
Nifer o weithwyr FTE	888
Canran o'r amser	Nifer o weithwyr
1-50%	10
51-99%	2

	£000
Cyfanswm cost amser cyfleuster	111
Cyfanswm y bil cyflog (ac eithrio ailstrwythuro)	29,646
Canran o gyfanswm y bil a wariwyd ar amser cyfleuster	0.37%
Amser a wariwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm amser cyfleuster â thâl	66%

BUDDSODDIAD YN EIN HYSTAD, TECHNOLEG AC ADNODDAU CORFFOROL

Fe wnaethom barhau i weithio'n galed i wella adnoddau ar gyfer ein dysgwyr a'n staff, a thrwy gydol y flwyddyn gwnaethom ddefnydd effeithiol ac effeithlon o'r holl grantiau cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru pan ddaethant ar gael. Fe wnaethom fuddsoddi cyfanswm o £3.1m mewn amrywiaeth o brosiectau y gellir gweld crynhoad o hyn yn y siart isod.



PARTNERIAETHAU

Mae gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn weithgareddau pwysig o hyd i'r Coleg allu gwella ac ehangu ein budd i ddysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned.

Nod yr Addewid Partneriaeth Cyflogwyr yw cadarnhau cysylltiadau diwydiant a hybu ymgysylltiad â chyflogwyr i helpu i fodloni blaenoriaethau rhanbarthol o ran sgiliau, cefnogi canlyniadau myfyrwyr a'r economi leol. Eleni fe dyfodd y nifer o gyflogwyr sydd wedi cofrestru gyda'r addewid i 17, gyda nifer o gyflogwyr eraill yn mynegi diddordeb i ymuno. Trwy'r Addewid mae cyflogwyr wedi chwarae rhan mewn ystod o weithgareddau sy'n cefnogi dysgu a phrofiadau cysylltiedig â gwaith ar draws y cyfadrannau.

Mae'r Coleg yn cyflwyno contract Prentisiaeth fel rhan o'r Consortiwm 'B-wbl' a arweinir gan Goleg Sir Benfro. Mae'r trefniant hwn yn parhau i weithio'n dda ac mae'r Consortiwm yn darparu llawer o gefnogaeth i raglen Brentisiaethau'r Coleg yn ogystal â hwyluso contract Llywodraeth Cymru. Rhagwelir y bydd canlyniadau Prentisiaethau y Coleg ar gyfer 2023/24 yn gymaradwy i ganlyniadau 22/23.

Mae'r Coleg yn gweithio mewn modd strategol gyda nifer o bartneriaid addysg uwch i gynnig cyrsiau lefel prifysgol mewn ystod gynyddol o feysydd pwnc. Yn ystod 2023/25, fe gofrestrodd 600 o ddysgwyr ar gyfer cwrs addysg uwch sy'n cwmpasu ystod o gyrsiau. Rydym hefyd yn cydweithio â phrifysgolion, yn enwedig Prifysgol De Cymru, ar weithgarwch rhanbarthol er budd y gymuned leol a chyflogwyr.

Mae'r Coleg yn cwmpasu pum maes Awdurdod Lleol a gwneir ymdrechion i ymgysylltu â phartneriaethau strategol a gweithredol perthnasol, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, grwpiau sgiliau a hyfforddi a fforymau economaidd. Mae'r Coleg yn cadarnhau ei gysylltiadau â'r Awdurdodau Lleol yn barhaus a chydabyddir ef fel rhanddeiliad yn yr agendâu sgiliau, twf a ffyniant ledled Gwent. Yn fwyaf uniongyrchol, gweithiwn gyda'r pum Awdurdod Lleol fel rhan o'r Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent i gynnig cyrsiau sy'n rhoi cyfle i gymunedau ennill sgiliau a chymwysterau newydd yn lleol. Mae'r Coleg hefyd yn parhau i weithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd a Llywodraeth Cymru i gyflawni Ardal Wybodaeth Casnewydd, sef campws newydd sbon yng nghanol y ddinas.

Ym Mlaenau Gwent mae'r Coleg wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, y rhaglen Tech Valleys, Llywodraeth Cymru a chyflogwyr, yn enwedig i gefnogi'r sector peirianeg a gweithgynhyrchu. Mae creu'r cyfleuster HiVE yng Nglynebwy fel canolfan hyfforddi ac addysg peirianeg arbenigol wedi gwneud cynnydd o ran cynlluniau a sicrhau chyllid. Dechreuodd y gwaith adeiladu eleni, a bydd yr adeilad yn cael ei drosglwyddo yn ystod ail hanner 24/25 i baratoi ar gyfer cyflwyno cwricwlwm llawn yn 25/26.

Mae'r Coleg yn cyfrannu i'r Cymoedd Technoleg, sef rhaglen gyda'r nod o gefnogi Cymoedd De Cymru a Blaenau Gwent i ddatblygu technolegau newydd a fydd yn cefnogi diwydiant arloesol. Mae'r Dirprwy Bennaeth yn aelod o Grŵp Cyngori Strategol y Cymoedd Technoleg, sy'n darparu cyngor strategol i'r Grŵp Noddi'r Cymoedd Technoleg (uwch swyddogion Llywodraeth Cymru) ar amcanion strategol, blaenoriaethau a chyflawniadau sy'n gysylltiedig â'r Cymoedd Technoleg.


Mae'r Pennaeth wedi parhau i gynrychioli'r sector AB ym Mhartneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sef Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol (Regional Skills Partnership - RSP) De-ddwyrain Cymru. Un o gyfrifoldebau pwysig y bartneriaeth hon yw cynghori Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau sgiliau economi de-ddwyrain Cymru. Mae'r Pennaeth hefyd yn rhan o Bartneriaeth Twf Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sef corff cynghori i Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac mae'n gyfrifol am gynghori ar faterion ynghylch datblygu polisi economaidd.

IECHYD, DIOGELWCH A PHERFFORMIAD AMGYLCHEDDOL


Yn ystod 2023/24 fe barhaodd y Coleg i gyflawni ei nod o wella ei berfformiad iechyd, diogelwch ac amgylcheddol o flwyddyn i flwyddyn; trwy hyn, cyflawnwyd nifer o nodau allweddol, sy'n dangos ymrwymiad y Coleg i leihau risgiau, darparu amgylchedd dysgu diogel a chyflawni carbon sero net erbyn 2050.

Yn ystod 2023/24 fe lwyddodd y Coleg i gadw ei achrediad i ISO 45001 (Safon Rheoli Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol) ac ISO 14001 (Rheolaeth Amgylcheddol). Y coleg felly yw'r unig Goleg Addysg Bellach yng Nghymru sy'n meddu ar achrediad i'r ddwy safon. Mae'r safonau rheoli yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth; asesir y risgiau sy'n gysylltiedig â'r Coleg, adolygir y mesurau rheoli, ac yna gwneir y gweithredoedd priodol er mwyn lleihau'r risgiau hynny.


Cyflawniadau Allweddol



Cyfanswm Allyriadau Carbon (2023 -2024)



Cyfanswm allyriadau CO₂e fel canran




ANSICRWYDD A RISGIAU YN Y DYFODOL

Mae ein dull tuag at reoli risgiau yn syml ac yn ymarferol. Mae'r Pwyllgor Archwilio, sydd dan awdurdod dirprwyedig Bwrdd y Llywodraethwyr, yn atebol am oruchwylio effeithiolrwydd ein polisi a'n prosesau rheoli risg, gan gynnwys nodi'r prif risgiau a'r risgiau sy'n dod i'r amlwg sy'n wynebu'r Coleg.

Caiff y Polisi Rheoli Risg ei adolygu'n ffurfiol ac yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cadw'n hollol unol ag anghenion y Coleg a chyfrifoldebau llywodraethu'r gorfforaeth.

Mae ein proses rheoli risg yn adlewyrchu ein model gweithredu gyda phob deiliad cyllid yn gyfrifol am nodi, asesu a rheoli eu risgiau presennol a'r rheini sy'n dod i'r amlwg. Caiff allbwn yr asesiadau hyn ei cronni yn y pen draw i lunio golwg gorfforaethol gyffredinol o risgiau.

Mae'r broses hon yn cynnwys:



Rhestrir y risgiau corfforaethol allweddol a gafodd eu rheoli a'u monitro yn ystod 23/24 ar y dudalen nesaf.

Bydd y risgiau hyn yn parhau i gael eu rheoli a'u monitro'n agos drwy gydol 2024/25.

Risgiau sydd wedi'u cynnwys ar Gofrestr Risg Gorfforaethol 2024/25

Crynodeb o'r Risgiau 24/25	
1	Bydd methu â sicrhau coleg Diogel a Chynhwysol yn arwain at niwed i ddysgwyr/staff, yn effeithio ar recriwtio ac yn arwain at golli arian a/neu chwalu enw da
2	Mae methu â chydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Sero Net/DDA yn arwain at gosb ariannol a chwalu enw da
3	Bydd uwch o fygythiadau i seiberddiogelwch yn arwain at y seilwaith TGCh yn chwalu, gan atal mynediad at systemau coleg allweddol ac effeithio ar berfformiad dysgwyr a staff ac efallai enw da ac iechyd ariannol
4	Gallai methu â bodloni gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn llawn arwain at gosb ariannol a chwalu enw da
5	Bydd methu â pharatoi ar gyfer bodloni'r gofynion cyfreithiol a osodir yn Neddf ALNET yn cynyddu'r tebygolrwydd o gymryd y coleg i'r tribiwnlys addysg a fydd yn arwain at gostau ariannol a chwalu enw da
6	Bydd methu â datblygu a chydymffurfio â gweithdrefnau rheoli mewnol effeithiol yn arwain at weithgarwch twyllodrus, ac o ganlyniad, colli arian/asedau a chwalu enw da
7	Bydd methu â mynd i'r afael â'r proffil canlyniadau dysgwyr sy'n gwaethygu yn effeithio'n andwyol ar iechyd ariannol, enw da a'r gallu i godi arian i wneud buddsoddiadau
8	Bydd methu â datblygu cynllun cadarn i gyflawni effeithlonrwydd ariannol yn effeithio'n andwyol ar iechyd ariannol, enw da a'r gallu i godi arian i wneud buddsoddiadau
9	Mae methu â chynnal nodau cyllid dysgwyr yn arwain at golli incwm (yn ystod y flwyddyn a dyraniadau yn y dyfodol) ac yn effeithio'n andwyol ar les ariannol.
10	Bydd methu â symud ymlaen â datblygu ystadau strategol allweddol (yn enwedig y gwaith ailddatblygu yn Crosskeys a'r NKQ) yn arwain at y nifer o ddysgwyr, canlyniadau dysgwyr, morâl y staff ac enw da y coleg yn gostwng
11	Mae sefydlu Medr ac ansicrwydd parhaus ynghylch sut y bydd y comisiwn yn gweithredu yn ymarferol yn effeithio'n andwyol ar gyllid a gwneud penderfyniadau
12	Bydd ansicrwydd ynghylch newidiadau i gymwysterau galwedigaethol cyffredinol yn y dyfodol yn peri aflonyddwch i ddysgwyr ac efallai effaith andwyol ar recriwtio dysgwyr.

BLAENORIAETHAU YN Y DYFODOL

Mae cadw ein dysgwyr a'n staff yn ddiogel a sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y profiad gorau posib yn parhau i fod yn ein prif flaenoriaeth. Mae ein risgiau a nodwyd ar gyfer 24/25 (gweler y dudalen flaenorol) yn mynd rhywfaint o ffordd i gadarnhau gweddill ein blaenoriaethau gan eu bod yn gysylltiedig o hyd â'n blaenoriaethau strategol.

Ni lleihawyd ein huchelgais i ddarparu amgylcheddau dysgu modern, arloesol ac ysbrydoledig ledled y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, a pharhawn â'n rhaglenni datblygu uchelgeisiol ar gyfer Ardal Wybodaeth Casnewydd; ailddatblygu ein campws Crosskeys a cydweithredu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent drwy'r rhaglen Cymoedd Technoleg i adeiladu cyfleuster Peirianeg o'r radd flaenaf: yr HiVE yng Nglynebwy.

Rydym yn cydnabod bod cynnal sefyllfa ariannol gadarn a chronfeydd wrth gefn cynaliadwy yn hanfodol i'n cynlluniau buddsoddi, ac o ganlyniad i doriadau cyllid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cychwyn ar gynllun gweithredu tair blynedd o hyd i yrru effeithlonrwydd ariannol uwch trwy'r sefydliad. Gweithiwn yn agos mewn Partneriaeth Gymdeithasol gyda'n cydweithwyr yn yr undebau llafur ar ein cynigion i gynnal a gwella iechyd ariannol, ac rydym wedi ymrwymo i'r model partneriaeth gymdeithasol fel modd o annog ymgysylltiad â staff sydd yn ystyriol ac o fudd iddynt.

Yn ogystal â gweithredu i gynnal lefel iach o gronfeydd wrth gefn, canolbwyntiwn ein hymdrechion ar wella ein canlyniadau dysgwyr


Mae canlyniadau dysgwyr dros dro ar gyfer 2023/24 wedi aros yn sefydlog o'i gymharu â 2022/23. Mae hyn yn siomedig gan fod angen gwella canlyniadau yn gyffredinol ac mae adferiad wedi Covid 19 wedi bod yn araf. Mae yna sawl gweithred ar waith i fynd i'r afael â hyn yn fel rhan o gynllun gwella coleg cyfan ar gyfer 2024/25. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio'n glir ar strategaethau asesu ac addysgu a gefnogir gan y tîm Ansawdd, dull newydd o fynd i'r afael â Byrddau Adolygu Ansawdd, a mwy o sylw ar ddata ar bresenoldeb fel dangosydd cynnar o ddysgwyr yn datgysylltu.

Mae ein Cynllun Strategol presennol yn rhedeg tan 2026 felly blaenoriaeth arall i ni yn y flwyddyn i ddod fydd gweithio â staff, llywodraethwyr a rhanddeiliaid allweddol ar Gynllun Strategol newydd ac uchelgeisiol ar gyfer y Coleg, gan adeiladu ar ein llwyddiannau presennol a'n dyheadau ar gyfer y dyfodol. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i weithio ar ystod o fentrau mewnol ac allanol a fydd yn llywio cyfeiriad y Coleg yn y dyfodol, ei ystod o wasanaethau i ddysgwyr, cyflogwyr a chymunedau, a'i berthynas â phartneriaid a rhanddeiliaid.

Mae ein themâu trawsbynciol ar gynhwysiant ac ymarfer perthynol yn parhau, a bydd ein hymrwymiad i'r rhain, yn ogystal â'n hymrwymiad i fod "yn Barod, yn Barchus, yn Ddiogel" fel yr arwyddair cyffredinol, yn parhau i fod yn sail i'n gwerthoedd craidd.

PERTHNASOEDD RHANDEILIAID

Fel y gellir ei weld o'r naratif blaenorol, mae'r Coleg wedi gweithio'n galed i sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhanddeiliaid:



Rydym yn cydnabod bod ymgysylltu'n effeithiol â'n rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o'n llwyddiant. Mae ymgysylltu'n effeithiol yn ein helpu i ddeall anghenion ein rhanddeiliaid a'u halinio â nodau ein sefydliad a datblygiad ein strategaeth. Mae'r adroddiad wedi tynnu sylw at sawl enghraifft o sut yr ydym yn ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid allweddol ac rydym yn falch o ddatblygu'r perthnasoedd cynhyrchiol hyn sydd o fudd i'n dysgwyr yn y pen draw.

DATGANIAD Y GORFFORAETH AR REOLEIDD-DRA, PRIODOLDEB A CHYDYMFFURFIAETH Y COLEG ÂTHELERAU AC AMODAU CYLLID LLYWODRAETH CYMRU.

Mae'r Gorfforaeth wedi ystyried ei chyfrifoldeb i hysbysu Llywodraeth Cymru am afreoleidd-dra materol, amhriodoldeb a diffyg cydymffurfio â thelerau ac amodau ariannu Llywodraeth Cymru, o dan y Memorandwm Ariannol a'r Amodau Ariannu sydd mewn lle rhwng y Coleg a Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'n hystyriaeth rydym wedi rhoi sylw dyledus i ofynion y Memorandwm Ariannol a'r Amodau Ariannu.

Gallwn gadarnhau nad oes unrhyw achosion o afreoleidd-dra materol, amhriodoldeb neu ddiffyg cydymffurfio o ran ariannu wedi'u darganfod hyd yma. Os caiff unrhyw achosion eu nodi ar ôl dyddiad y datganiad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn cael eu hysbysu amdanynt.

Llofnod: _____ Llofnod: _____ Cadeirydd
Pennaeth/Prif Weithredwr

DATGANIAD O LYWODRAETHU CORFFORAETHOL A RHEOLI MEWNOL

Bwriad y datganiad hwn yw cefnogi darllenydd y cyfrifon wrth ddysgu sut mae egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU (i'r graddau y mae'n berthnasol i'r sector AB) wedi'u cymhwyso. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i arfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol ac mae'n gweithredu gan roi sylw dyledus i egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Mae'r Gorfforaeth hefyd wedi dechrau – ac yn adolygu'n flynyddol – cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru. Darperir copi o'r Cod Llywodraethu Da i bob Aelod o'r Gorfforaeth ar adeg penodi. Barn y Bwrdd yw fod Coleg Gwent yn cydymffurfio â phob gofyniad Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU i'r graddau y maent yn berthnasol i'r sector addysg bellach, ac mae wedi cydymffurfio drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2024.

Mae'r bwrdd wedi cymeradwyo Cod Ymddygiad, Gwerthoedd ac Ymddygiadaun Corfforaethol ei hun, a phob blwyddyn mae holl Aelodau'r Gorfforaeth yn cadarnhau eu hymrwymiad i gadw at y safonau a osodir ynddo. Mae'r Cod Ymddygiad yn cyfeirio at ganllawiau statudol a rheoleiddiol perthnasol ac yn corffori saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus: anhunanoldeb, unplygrwydd, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Mae'r Coleg yn elusen eithriedig o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf Elusennau 2011. Mae'r Llywodraethwyr (sydd hefyd yr Ymddiriedolwyr at ddibenion Deddf Elusennau 2011) yn cadarnhau eu bod wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd a bod y datganiadau gofynnol sydd yn ymwneud â hyn yn ymddangos ym manau eraill yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Bwrdd y Gorfforaeth

Rhestrir y sawl a wasanaethasant fel Llywodraethwyr ac Aelodau Allanol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024 ar y tabl ar dudalennau 30 a 31. Ceir elfen annibynnol gref, a barn y Bwrdd yw bod pob un o'i aelodau anweithredol yn annibynnol o reolaeth ac yn rhydd o unrhyw fusnes neu berthynas arall a allai ymyrryd yn sylweddol ar eu barn annibynnol yn cael ei harfer.

<i>Llif arian parod o weithgareddau ariannu</i>		
Llog a dalwyd	(157)	(148)
Ad-dalu symiau a fenthycwyd ar ffurf benthyciadau	(303)	(389)
Llif arian parod net gan weithgareddau ariannu	(460)	(537)
(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod a chyfwerth yn ystod y flwyddyn	(27,143)	1,208
Arian parod a chyfwerth ar ddechrau'r flwyddyn	33,605	32,397
Arian parod a chyfwerth ar ddiwedd y flwyddyn	6,462	33,605

1. DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFYDDU A THECHNEGAIU AMCANGYFRIF

Cymhwyswyd y polisiau cyfrifyddu canlynol yn gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn faterol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol.

Sail paratoad

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r *Datganiad o Arfer a Argymhellir: Cyfrifeg ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019* (SORP AB AU 2019), y *Cyfarwyddyd Cyfrifon Llywodraeth Cymru* ac yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 - *"Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon"* (FRS 102). Mae'r Coleg yn endid budd cyhoeddus sydd felly wedi cymhwyso gofynion budd cyhoeddus perthnasol FRS 102.

Mae paratoi datganiadau ariannol yn unol â FRS 102 yn gofyn am ddefnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu beirniadol penodol. Mae hefyd gofyn i'r adran reoli ddarparu beirniadaeth wrth gymhwyso polisiau cyfrifyddu'r coleg.

Sail cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol a addaswyd o ganlyniad i ailbriso asedau sefydlog penodol.

Sail cydgrynhoi

Nodir is-gwmniau'r Coleg yn nodyn 11, ac ar hyn o bryd mae pob un yn segur gyda £1 o gyfalaf cyfrandaliadau. Ni chydgrynhowyd gweithgareddau undeb y myfyrwyr oherwydd nid oes gan y Coleg reolaeth dros y gweithgareddau hynny. Felly mae'r fantolen gyfunol yr un peth â mantolen cwmni rhiant y Gorfforaeth

Busnes Gweithredol

Nodir gweithgareddau'r Coleg, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad a pherfformiad yn y dyfodol yn yr Adroddiad i Aelodau. Cyflwynir sefyllfa ariannol y Coleg, ei lif arian, ei hylifedd a'i fenthyciadau yn y Datganiadau Ariannol a Nodiadau cysylltiedig.

Ar hyn o bryd mae gan y Coleg fenthyciadau gwerth £2.5m (2023: £2.8m) i'w talu i fancwyr ar delerau a drafodwyd ar wahanol ddyddiadau. Mae rhagolygon ac allanoliadau ariannol y Coleg yn dangos fod modd iddo weithredu o fewn y cyfleuster a chyfamodau presennol am y dyfodol rhagweladwy.

Mae'r Coleg felly yn disgwyl yn rhesymol y bydd yn meddu ar adnoddau digonol i barhau i weithredu am y dyfodol rhagweladwy, ac am y rheswm hwn bydd yn parhau i fabwysiadu busnes parhaus fel sail wrth baratoi ei Ddatganiadau Ariannol.

Cydnabod incwm

Mae grantiau refeniw y llywodraeth yn cynnwys grantiau rheolaidd a grantiau eraill, a'r model cronni fel y caniateir gan FRS 102 sydd i gyfrif am y rhain. Caiff grantiau rheolaidd gan gyrrff cyllido eu mesur yn unol â'r amcangyfrifon gorau ar gyfer y cyfnod y mae modd eu derbyn, ac maent yn dibynnu ar y ffrwd incwm benodol sydd dan sylw. Fel arfer, caiff yr incwm terfynol o ran grantiau ei bennu ar ddiwedd y broses gysoni ddiwedd-flwyddyn gyda'r corff cyllido a chanlyniadau unrhyw archwiliadau cyllido.

Mae'r grant rheolaidd gan Lywodraeth Cymru yn cynrychioli dyraniadau cyllid a briodolir i'r flwyddyn ariannol gyfredol ac a gredydir yn uniongyrchol i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Cydnabyddir grantiau (gan gynnwys grantiau ymchwil) o ffynonellau anllywodraethol fel rhan o incwm pan fod gan y Coleg yr hawl iddo, a phan gaiff yr amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad eu bodloni. Cydnabyddir yr incwm a dderbynnir cyn bodloni amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad fel incwm gohiriedig o fewn credydwyr ar y fantolen a'i ryddhau fel rhan o'r incwm wrth i'r amodau gael eu bodloni.

Cyllid grant cyfalaf

Caiff grantiau cyfalaf y llywodraeth eu cyfalafu, au dal fel incwm gohiriedig a'u cydnabod fel rhan o'r incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased dan y model cronni fel y caniateir gan FRS 102. Caiff grantiau cyfalaf anllywodraethol eraill eu cydnabod fel rhan o'r incwm pan fod gan y Coleg yr hawl i'r cronfeydd yn amodol ar fodloni unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Cydnabyddir yr incwm a dderbynnir cyn bodloni amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad fel incwm gohiriedig o fewn credydwyr ar y Fantolen a'i ryddhau fel rhan o'r incwm wrth i amodau gael eu bodloni.

Incwm ffioedd

Caiff incwm ffioedd dysgu ei nodi yn gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt a chydabyddir ef yn y cyfnod y caiff ei dderbyn ynddo.

Incwm o buddsoddiadau

Caiff yr holl incwm o adneuo tymor byr ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y caiff ei ennill ynddo ar sail derbyniadwy..

Trefniadau asiantaeth

Mae'r Coleg yn gweithredu fel asiant wrth gasglu a thalu cronfeydd cymorth dewisol penodol. Mae taliadau cysylltiedig a dderbyniwyd gan y cyrff cyllido ac alldaliadau dilynol i fyfyrwyr wedi'u heithrio o incwm a gwariant y Coleg lle mae'n agored i'r lefel leiaf o risg neu'n mwynhau'r budd economaidd lleiaf sy'n gysylltiedig â'r trafodiad.

Cyfrif am fudd-daliadau ôl-gyflogaeth

Darperir buddion ôl-gyflogaeth i weithwyr y Coleg yn bennaf gan y Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA) a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLL). Cynlluniau buddion diffiniedig yw'r rhain a ariennir yn allanol ac sydd wedi'u contractio'n allanol i Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Cynllun heb ei ariannu yw'r TPS. Cyfrifir cyfraniadau i'r TPS i ledaenu cost pensiynau dros fywydau gwaith cyflogeion y Coleg fel bod cost y pensiwn yn ganran sylweddol hafal o'r gyflogres bensiynadwy gyfredol a dyfodol. Caiff cyfraniadau eu pennu gan actiwariaid cymwys ar sail prisiau gan ddefnyddio dull buddion arfaethedig. Mae'r TPS yn gynllun aml-gyflogwr ac nid oes modd i'r Coleg nodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ar sail gyson a rhesymol. Caiff y TPS felly ei drin fel cynllun cyfraniadau diffiniedig y cydnabyddir y cyfraniadau fel treuliau yn y datganiad incwm yn ystod y cyfnodau y mae gweithwyr yn gwasanaethu ynddynt.

Cynllun a ariennir yw'r LGPS. Mesurir LGPS drwy ddefnyddio gwerthoedd teg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Caiff rhwymedigaethau LGPS eu mesur drwy ddefnyddio'r dull credyd unedau (unit credit) a ragwelir a'u disgowntio ar y gyfradd enillion gyfredol ar bond corfforaethol ansawdd uchel o'r tymor ac arian sy'n cyfateb i'r rhwymedigaethau. Caiff prisiau actiwaraid eu hennill o leiaf bob tair blynedd a'u diweddarau ar dyddiad pob mantolen. Y symiau a godir ar warged gweithredu yw'r costau gwasanaeth cyfredol a chostau cyflwyno cynlluniau, newidiadau i fudd-daliadau, setliadau a thoriadau. Maent y cael eu cynnwys fel rhan o gostau staff wrth iddynt gael eu codi. Cydnabyddir y llog net ar fudd net diffiniedig y rhwymedigaeth/ased hefyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr sy'n cynnwys cost log ar rwymedigaeth ddiffiniedig budd-daliadau ac incwm llog ar asedau'r cynllun a gyfrifir drwy luosi gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn ariannol â'r gyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau'r budd-daliadau. Cydnabyddir y wahaniaeth rhwng yr incwm llog ar asedau'r cynllun a'r enillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun mewn cofnodion o enillion a cholledion cydnabyddedig eraill.

cydnabyddir enillion a cholledion actiwaraidd yn cael eu cydnabod ar unwaith mewn cofnodion o enillion a cholledion cydnabyddedig eraill. Pan fo gwerth asedau pensiwn yn uwch na'i rwymedigaeth, cydnabyddir gwarged pensiwn dim ond pan fydd sicrwydd o ran gallu'r Coleg i adennill y gwarged drwy gyfraniadau llai yn y dyfodol. Mae Adroddiad Nenfwd Asedau'r actiwari ar 31 Gorffennaf 2024 yn rhagweld gostyngiad yn y gost wasanaeth a ragwelir ac yn nodi bod y budd economaidd sydd ar gael fel gostyngiad mewn cyfraniadau yn y dyfodol yn uwch na'r safle gwarged net o fewn y cynllun. O ganlyniad, cafodd y gwarged ei gydnabod yn llawn fel yr oedd ar 31 Gorffennaf 2024.

Buddion Cyflogaeth tymor byr

Cydnabyddir buddion cyflogaeth tymor byr megis cyflogau ac absenoldebau â thâl (tâl gwyliau) fel treuliau yn ystod y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn cyflawni gwasanaeth i'r Coleg. Caiff unrhyw fudd-daliadau nas defnyddir eu cronni a'u mesur fel y swm ychwanegol y mae'r Coleg yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i'r hawl nas defnyddiwyd.

Pensiynau Uwch

Telir cost wirioneddol unrhyw bensiwn parhaus uwch i gyn-aelod o staff gan y Coleg bob blwyddyn. Caiff amcangyfrif o'r gost ddisgwyliedig yn y dyfodol o unrhyw welliant i bensiwn parhaus cyn-aelod o staff ei godi yn llawn i SOCI y Coleg y flwyddyn y mae'r aelod o staff hwnnw yn ymddeol. Yn y blynyddoedd dilynol codir tâl ar ddarpariaethau yn y fantolen gan ddefnyddio'r daenlen bensiynau uwch a ddarperir gan y cyrff cyllido.

Asedau sefydlog diriaethol

Caiff asedau sefydlog diriaethol eu nodi ar gost heb gyfrif dibrisiant cronedig a cholledion amhariadau cronedig. Caiff rhai eitemau'r asedau sefydlog a gafodd eu hailbrisio i werth teg ar neu cyn y dyddiad pontio i SORP AB AU 2015 eu mesur ar sail y gost dybiedig, sef y swm a ail-brisiwyd ar ddyddiad ailbrisio hwnnw.

Tir ac adeiladau

Caiff adeiladau rhydd-ddaliad eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu bywydau defnyddiol disgwyliedig fel a ganlyn:

- Adeiladau a gaffaelwyd cyn Awst 2002 - 25 mlynedd
- Adeiladau a gaffaelwyd ar ôl Awst 2002 - 50 mlynedd
- Isadeiledd Mecanyddol a Thrydanol - 25 mlynedd
- Adnewyddiadau - 10 mlynedd

Ni chaiff tir rhydd-ddaliad ei ddibrisio (oni bai ei fod yn ddarostyngedig i brydles hir).

Caiff adeiladau rhydd-ddaliad eu dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol a ddisgwylir gan y Coleg, sef rhwng 25 a 50 mlynedd. Mae gan y Coleg bolisi o ddibrisio addasiadau mawr i adeiladau dros gyfnod eu hoes economaidd ddefnyddiol, sef rhwng 25 a 50 mlynedd.

Pan fo tir ac adeiladau yn cael eu gaffael gyda chymorth grantiau penodol, caiff cyfalafu a'u dibrisio megis uchod. Caiff y grantiau sy'n berthnasol eu credydu i gyfrif incwm gohiriedig o fewn credydwyr a chaiff eu rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased perthnasol ar sail systematig sy'n gyson â'r polisi dibrisiant. Caiff yr incwm gohiriedig ei ddyrannu rhwng credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn a'r rhai sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

Cynhelir adolygiad ar gyfer nam ar ased sefydlog os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn dangos nad oes modd adennill swm cario unrhyw ased sefydlog.

Ar ôl mabwysiadu FRS 102, dilynodd y Coleg y ddarpariaeth drosiannol i gadw gwerth y tir ac adeiladau yn y llyfrau (a ail-brisiwyd yn 1993 ar ôl ymgorfforiad fel cost dybiedig) ond nid i fabwysiadu polisi ailbrisiu'r eiddo hyn yn y dyfodol.

Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu

Cyfrifir asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn ar gost yn seiliedig ar werth tystysgrifau penseiri a chostau uniongyrchol eraill a godwyd hyd at 31 Gorffennaf. Ni chaiff eu dibrisio tan iddynt gael eu dwyn i ddefnydd.

Gwariant dilynol ar asedau sefydlog presennol

Pan wneir gwariant sylweddol ar asedau sefydlog diriaethol wedi'r pryniant cychwynnol, codir tâl i'r SOCI yn y flwyddyn ariannol y caiff ei godi ynddi, oni bai ei fod yn cynyddu buddion y Coleg yn y dyfodol, ac yn yr achos hwnnw caiff ei gyfalafu a'i ddibrisio ar y sail berthnasol.

Offer

Cydnabyddir darnau o offer sy'n costio llai na £5,000 fesul eitem unigol fel gwariant ym mlwyddyn ariannol y caffaeliad. Caiff yr holl offer eraill eu cyfalafu ar gost.

Caiff offer sydd wedi'u cyfalafu eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu bywyd economaidd defnyddiol fel a ganlyn:

- offer technegol 5 mlynedd
- cerbydau modur 5 mlynedd
- offer cyfrifiadurol 4 blynedd
- dodrefn, gosodiadau a ffitiadau 10 mlynedd

Costau benthyca

Caiff costau benthyca eu cydnabod fel gwariant yn y flwyddyn ariannol y caiff eu codi ynddi.

Asedau ar brydles

Codir costau sy'n berthynol â brydlesu gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Mae unrhyw premïymau neu gymhellion sy'n ymwneud â phrydlesi a lofnodwyd ar ôl 1 Awst 2014 wedi'u lledaenu dros isafswm cyfnod y brydles.

Caiff cytundebau prydlesu sy'n trosglwyddo i'r Coleg yn sylweddol holl fanteision a risgiau perchnogaeth ased eu trin fel prydlesi cyllid.

Caiff asedau a ddelir o dan brydlesi cyllid eu cydnabod yn gychwynnol fel gwerth teg yr ased ar brydles (neu os yw'n is na hynny, gwerth presennol isafswm taliadau les) ar ddechrau'r brydles. Mae'r rhwymedigaeth sy'n gyfatebol i'r prydleswr wedi'i chynnwys yn y fantolen fel rhwymedigaeth prydles ariannol. Asedau a ddelir o dan

Caiff prydlesi cyllid eu cynnwys mewn asedau sefydlog diriaethol a'u dibrisio a'u hasesu ar gyfer colledion amhariad yn yr un modd ag asedau sydd wedi'u berchen.

Caiff isafswm taliadau prydles eu dosrannu rhwng y tâl cyllid a'r gostyngiad yn y rhwymedigaeth ddyledus. Caiff taliadau cyllid yn cael eu dyrannu dros gyfnod y brydles mewn modd sy'n gymesur â'r elfen gyfalaf sy'n ddyledus.

Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau

Caiff buddsoddiadau mewn is-gwmnïau eu cyfrif ar gost minws unrhyw nam sydd yn y datganiadau ariannol unigol.

Stocrestrau

Caiff stocrestrau eu nodi ar yr haen isaf o ran cost (gan ddefnyddio'r dull cyntaf mewn cyntaf allan) a'r gwerth gwiredadwy net, sef y pris gwerthu minws y costau i'w cwblhau a'u gwerthu. Lle bo angen, darperir ar gyfer eitemau darfodedig, sy'n gwerthu'n araf neu sy'n diffygiol.

Arian parod a chyfwerth

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuron ad-daladwy ar alw a gorddrafftiau. Mae adneuron yn ad-daladwy ar alw os ydynt ar gael o fewn 24 awr heb gosb.

Buddsoddiadau tymor byr, hylifol iawn sy'n hawdd eu trosi i symiau hysbys o arian parod gyda risg isel o newid mewn gwerth yw'r hyn a alwn yn gyfwerth ag arian parod. Mae buddsoddiad yn cael ei gyfrif fel taliad sy'n gyfwerth ag arian parod pan fydd wedi aeddfedu am 3 mis o'r dyddiad caffael ar y mwyaf.

Rhwymedigaethau ariannol ac ecwiti

Mae rhwymedigaethau ariannol ac ecwiti yn cael eu dosbarthu yn ôl sylwedd rhwymedigaethau cytundebol yr offeryn ariannol yn hytrach na'i ffurf gyfreithiol.

Dosberthir pob benthyciad, buddsoddiad a blaendal tymor byr a ddelir gan y Coleg fel offerynnau ariannol sylfaenol yn unol â FRS 102. Caiff yr offerynnau hyn eu cofnodi yn gychwynnol ar bris y trafodiad minws unrhyw gostau trafodiad (cost hanesyddol). Mae'n ofyniad gan FRS 102 bod offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu mesur wedyn ar gost amorteiddio.

Trethiant

Ystyrir y Coleg i basio'r profion a nodir ym Mharagraff 1 Atolen 6 o Ddeddf Gyllid 2010, ac mae felly yn bodloni'r diffiniad o gwmni elusennol at ddibenion treth gorfforaeth y DU. Felly, mae'r Coleg o bosib wedi'i eithrio rhag cael ei drethu am incwm neu enillion cyfalaf a dderbynnir o fewn categorïau a gwmpesir gan adrannau 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 neu Adran 256 o Ddeddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y cymhwysir incwm neu enillion o'r fath at ddibenion elusennol yn unig.

Mae'r Coleg wedi'i eithrio'n rhannol Dreth Gwerth Ychwanegol, felly gall adennill dim ond tua 6.2% (hawliad TAW diwethaf) o'r TAW a godwyd ar ei fewnbynau. Caiff y TAW na ellir ei adennill ar fewnbynau ei gynnwys yng nghostau mewnbynau o'r fath ac fe'i ychwanegir at gost yr asedau sefydlog diriaethol fel y bo'n briodol, lle mae'r mewnbynau eu hunain yn asedau sefydlog diriaethol yn ôl eu natur.

Darpariaethau ac atebolrwydd dibynnol

Cydnabyddir darpariaethau pan

- fo gan y Coleg rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol
- mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo budd economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth a
- gellir amcangyfrif maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Pan fo effaith gwerth amser arian yn sylweddol, cydnabyddir y swm y mae disgwyl iddo fod y ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ar werth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt cyn trethiant.

Cydnabyddir y disgownt yn dad-ddirwyn fel cost ariannol yn y datganiad o incwm cynhwysfawr y flwyddyn ariannol y mae'n codi ynddi.

Mae atebolrwydd dibynnol yn deillio o ddigwyddiad blaenorol sy'n rhoi rhwymedigaeth bosib i'r Coleg a gadarnheir dim ond gan ddigwyddiad ansicr yn codi (neu fel arall) nad yw'n destun rheolaeth y Coleg. Mae achosion o atebolrwydd dibynnol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle y gwneir darpariaeth fel arall ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif adnoddau neu nid oes modd mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir achosion o atebolrwydd dibynnol yn y fantolen, ond caiff eu datgelu yn nodiadau'r datganiadau ariannol.

Dyfarniadau wrth gymhwyso polisiau cyfrifyddu a ffynonellau ansicrwydd amcangyfrif allweddol

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r rheolwyr wedi gwneud y dyfarniad canlynol:

- Penderfynu a oes dangosyddion o amhariad ar asedau diriaethol y grŵp. Mae'r ffactorau a gymerir mewn i ystyriaeth wrth gyrraedd penderfyniad o'r fath yn cynnwys hyfywedd economaidd a pherfformiad ariannol disgwylidig yr ased yn y dyfodol, a lle mae'n elfen o uned gynhyrchu arian fwy, hyfywedd a pherfformiad disgwylidig yr uned honno yn y dyfodol.

Ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd amcangyfrif

- *Asedau sefydlog diriaethol*

Mae asedau sefydlog diriaethol yn dibrisio dros eu bywydau defnyddiol gan ystyried gwerthoedd gweddilliol lle bo hynny'n briodol. Caiff bywydau gwirioneddol yr asedau a'r gwerthoedd gweddilliol eu hasesu bob blwyddyn a gallant amrywio gan ddibynnu ar nifer o ffactorau. Wrth ailasesu bywydau asedau, ystyrir ffactorau fel arloesi technolegol a rhaglenni cynnal a chadw. Mae asesiadau gwerth gweddilliol yn ystyried materion fel amodau'r farchnad yn y dyfodol, gweddill oes yr ased a gwerthoedd gwaredu a ragwelir.

- *Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol*

Mae gwerth presennol gwarged/ddiffyg budd diffiniedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dibynnu ar nifer o ffactorau a bennir ar sail actiwaraid drwy ddefnyddio amrywiaeth o ragdybiaethau. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth bennu'r gost net ar gyfer pensiynau yn cynnwys y gyfradd ddisgownt. Bydd unrhyw newidiadau yn y rhagdybiaethau hyn, a ddatgelir yn nodyn 22, yn effeithio ar swm cario y gwarged pensiwn. Yn ogystal, mae'r actiwari wedi defnyddio dull 'dwyn ymlaen' sy'n rhagweld canlyniadau y prisiad actiwaraid llawn diweddaraf a berfformiwyd ar 31 Mawrth 2022 wrth brisio'r pensiwn ar 31 Gorffennaf 2024. Byddai unrhyw wahaniaethau rhwng y ffigurau sy'n deillio o'r dull dwyn ymlaen a phrasiad actiwaraid llawn yn effeithio ar swm cario'r gwarged pensiwn.

- *Cydnabod gwarged pensiwn*

Wrth ystyried gwarged y cynllun sy'n gysylltiedig â'r cynllun pensiwn, mae'r coleg wedi cydnabod gwarged gan ei fod yn fodlon y bydd yn derbyn gostyngiadau mewn costau gwasanaeth yn y dyfodol o ganlyniad i'r sefyllfa warged net. Nid yw FRS102 yn darparu unrhyw ganllawiau o ran a ddylid ystyried isafswm cyfraniadau yn y dyfodol yn yr asesiad o warged, ac mae'r coleg wedi dewis peidio ag ystyried cyfraniadau o'r fath. Pe bai cyfraniadau o'r fath yn y dyfodol yn cael eu cynnwys yn yr asesiad, byddai hyn yn arwain at beidio â chydabod gwarged yn 2024 neu 2023.

2. GRANTIAU LLC

	2024	2023
	£'000	£'000
Grantiau Rheolaidd		
Grant Rheolaidd Llywodraeth Cymru	57,053	55,510
Dysgu Seiliedig ar Waith	2,247	2,395
Rhyddhau Grantiau Cyfalaf Gohiriedig Llywodraeth Cymru - adeiladau	129	129
Rhyddhau Grantiau Cyfalaf Gohiriedig Llywodraeth Cymru - offer	2,525	2,191
Grantiau penodol eraill	<u>9,302</u>	<u>10,795</u>
Cyfanswm	<u>71,256</u>	<u>71,020</u>

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 derbyniodd y Coleg £1,140k (2022/23: £1,222k) gan Lywodraeth Cymru fel Cronfeydd Cymorth i Ddysgwyr (Learner Support Funds - LSF) a glustnodwyd. Gweinyddwyd yr arian yn unol â'r telerau ac amodau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ac nid ydynt wedi'u cofnodi yng nghyfrif incwm a gwariant y Coleg. Gweler manylion y grant hwn yn Nodyn 24.

3. FFIOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSG

	2024	2023
	£'000	£'000
Ffioedd - Addysg Bellach	595	567
Ffioedd - Addysg Uwch	2,703	2,652
Cyfanswm y ffioedd dysgu	<u>3,298</u>	<u>3,219</u>
Contractau AALL	<u>200</u>	<u>138</u>
Cyfanswm	<u>3,498</u>	<u>3,357</u>

4. GRANTIAU A CHONTRACTAU ERAILL

	2024	2023
	£'000	£'000
Grantiau o Ewrop	305	2,125
Cyfanswm	<u>305</u>	<u>2,125</u>

5. INCWM ARALL

	2024 £'000	2023 £'000
Arlwyo	40	33
Gweithgareddau cynhyrchu incwm eraill	879	327
Rhyddhau grantiau cyfalaf gohiriedig eraill - nad ydynt yn LLC	639	674
Incwm amrywiol	1,764	1,186
Cyfanswm	<u>3,322</u>	<u>2,220</u>

6. INCWM O FUDDSODDIADAU

	2024 £'000	2023 £'000
Llog banc sy'n dderbyniadwy	<u>989</u>	<u>357</u>
Cyfanswm	<u>989</u>	<u>357</u>

7. COSTAU STAFFIO**Niferoedd o staff**

Y nifer cyfartalog o gyflogeion (gan gynnwys rheolwyr allweddol) a gyflogwyd gan y coleg yn ystod y flwyddyn, a ddisgrifir fel cyfrifiad, oedd:

	2024 Rhif	2023 Rhif
Staff addysgu	584	591
Staff nad ydynt yn addysgwr	<u>664</u>	<u>645</u>
Cyfanswm	<u>1,248</u>	<u>1,237</u>

Costau staff ar gyfer y personau uchod

	2024 £'000	2023 £'000
Cyflogau	40,242	37,797
Costau nawdd cymdeithasol	3,956	3,736
Costau pensiwn eraill (gan gynnwys pensiynau uwch, addasiad FRS 102)	8,558	9,309
Symudiad mewn tâl gwyliau	<u>21</u>	<u>(197)</u>
	52,777	50,645

Costau diswyddo staff eithriadol	1,007	391
	<u>53,784</u>	<u>51,036</u>

COSTAU STAFFIO - (Parhad)**Costau cyflogaeth yn ôl math o gyflogai**

	2024 £'000	2023 £'000
Adrannau addysgu	29,893	28,350
Gwasanaethau cymorth addysgu	7,373	6,870
Gweinyddiaeth a gwasanaethau canolog	14,835	13,279
Safle	660	624
Hyfforddiant a datblygiad	57	45
Costau diswyddo staff eithriadol	1,007	391
Symudiad darpariaeth bensiw uwch	99	(102)
Ardoll prentisiaethau	184	163
FRS102 (credyd o dan)/dros gyfraniadau	(345)	1,613
Symudiad cronni i dâl gwyliau	<u>21</u>	<u>(197)</u>
Cyfanswm	<u>53,784</u>	<u>51,036</u>

Personél rheoli allweddol

Personél rheoli allweddol yw'r rhai sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb am gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r Coleg, y cynrychiolir hwy gan Uwch Dîm Arwain y Coleg (Senior Leadership Team - SLT) sy'n cynnwys y Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth, yr Is-Benaethiaid, y Penaethiaid Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwyr.

Enillion y personél rheoli allweddol, y Swyddog Cyfrifyddu a staff eraill ar gyflog uwch.

Y nifer o'r personél rheoli allweddol ac aelodau staff eraill a dderbyniodd daliadau blynyddol, ac eithrio cyfraniadau pensiwn ond gan gynnwys buddion mewn nwyddau, oedd:

	2024 Rhif	2023 Rhif
Y Nifer o'r personél rheoli allweddol, gan gynnwys y Swyddog Cyfrifyddu, oedd:	13.33	14.47
Cyfanswm	<u>13.33</u>	<u>14.47</u>

COSTAU STAFFIO - (Parhad)

Personél rheoli allweddol

	2024	2023
	Rhif	Rhif
£65,001 i £70,000 y flwyddyn	0.58	5.36
£70,001 i £75,000 y flwyddyn	1.66	1.42
£75,001 i £80,000 y flwyddyn	0.34	-
£80,001 i £85,000 y flwyddyn	7.00	4.69
£85,001 i £90,000 y flwyddyn	0.75	-
£115,001 i £120,000 y flwyddyn	-	1.00
£120,001 i £125,000 y flwyddyn	1.00	1.00
£125,001 i £130,000 y flwyddyn	1.00	-
£185,001 i £190,000 y flwyddyn	-	1.00
£185,001 i £190,000 y flwyddyn	1.00	-
Cyfanswm	13.33	14.47

Mae iawndaliadau y personél rheoli allweddol isod:

	2024	2023
	£'000	£'000
Cyflogau	1,255	1,249
Lwfans Car	18	22
Cynllun lechyd	8	8
Cyfraniadau pensiwn	281	260
Cyfanswm yr Enillion	1,562	1,539

Yn 23/24 roedd yna 32 aelod o staff a enillodd dros 60k nad ydynt yn rhan o'r uwch dîm arwain. Roedd hyn yn cynnwys 27 o Benaethiaid Ysgol a 3 Chyfarwyddwr Cyswllt.

	2024	2023
	Rhif	Rhif
£60,001 i £65,000 y flwyddyn	27	3
£65,001 i £70,000 y flwyddyn	1	-
£70,001 i £75,000 y flwyddyn	4	-

Mae'r iawndaliadau uchod yn cynnwys symiau sy'n daladwy i'r Pennaeth, sef y swyddog cyfrifyddu, ac sydd hefyd yr aelod o staff sydd ar y cyflog uchaf. Mae'r cyflog a'r dâl fel a ganlyn:

	2024	2023
	£'000	£'000
Cyflogau	191	186
Cyfraniadau pensiwn	38	34
Cyfanswm yr Enillion	229	220

COSTAU STAFFIO - (Parhad)

lawndaliadau am golli swydd a dalwyd i gyn-bersonél rheoli allweddol.

	2024 £'000	2023 £'000
lawndaliadau a dalwyd i gyn-bersonél rheoli allweddol	-	40
Cyfanswm	-	40

Ni dderbyniodd aelodau'r Gorfforaeth (ac eithrio'r Swyddog Cyfrifyddu a'r aelodau staff) unrhyw daliad gan y sefydliad heblaw ad-daliad am gostau teithio a chynhaliaeth a dynnwyd yn ystod eu dyletswyddau.

Perthynas tâl a chyflog y Prifathro/Prif Weithredwr fel swm lluosog

	2024	2023
Cyflog sylfaenol y Prifathro fel lluosrif o ganolrif yr holl staff	4.46	4.88
Cyfanswm tâl y pennaeth fel lluosrif o ganolrif yr holl staff	4.71	6.12

Mae ffigurau 2024 yn seiliedig ar adroddiad y Bwlch Cyflog Rhwng y Ddau Ryw ar gyfer mis Mawrth 2024 ac nid yw'n cynnwys staff yr asiantaeth. Ar hyn o bryd mae'r Coleg gyda chontract trydydd parti i ddarparu gwasanaethau glanhau ac arlwy'o'r Coleg, felly mae'r costau staffio hyn hefyd wedi'u hepgor o'r cyfrifiad.

Taliadau diswyddo

Cyfanswm y taliadau diswyddo yn ystod y flwyddyn oedd £1,007k (2023: £391k). Gwerth y taliadau cytundebol oedd £728k a gwerth taliadau anghytundebol oedd £279k. Cymeradwywyd yr holl daliadau diswyddo gan y Bwrdd.

Fe dalodd y Coleg 42 taliad diswyddo yn ystod y flwyddyn, y datgelir hwy yn y bandiau canlynol:

£0 - £25,000	25
£25,001 - £50,000	13
£50,001 - £75,000	2
£75,001 - £100,000	2

Wedi'u cynnwys yn y costau ailstrwythuro staff mae taliadau diswyddo arbennig gwerth cyfanswm o £279k. Yn unigol, y taliadau oedd: £31, £472, £821, £1,272, £2,606, £2,606, £2,617, £2,814, £3,592, £4,401, £4,401, £4,443, £4,733, £4,733, £4,733, £4,733, £5,212, £5,212, £5,212, £5,212, £5,661, £5,661, £5,661, £6,185, £6,495, £6,495, £7,163, £7,345, £8,147, £9,129, £9,466, £9,466, £9,466, £9,466, £12,345, £19,557, £20,000, £23,695, £27,306.

8. TREULIAU GWEITHREDU ERAILL

	2024	2023
	£'000	£'000
Costau'r adran addysgu	1,142	2,243
Gwasanaethau cymorth eraill	117	143
Gweinyddiaeth a gwasanaethau canolog	5,826	5,811
Addysg Gyffredinol	2,191	2,355
Costau'r safle a chynnal a chadw	7,001	6,215
Darpariaeth masnachfrait	1,199	1,200
Taliad i Bartneriaid - Cyllid o Ewrop	270	715
Gweithrediadau arlwyo	256	435
Ystadau Brynbuga	13	18
Trafnidiaeth	956	988
	<u>18,971</u>	<u>20,123</u>
Tâl Archwilwyr - (Mae'r holl ffioedd archwilio yn gros o TAW)		
Datganiad Ariannol	46	46
Gwasanaethau Eraill	14	14
Archwilio Mewnol	57	57
Llogi asedau o dan brydlesi gweithredol - asedau nad ydynt yn eiddo	825	825
	<u>19,913</u>	<u>21,065</u>

9. LLOG A CHOSTAU CYLLID ERAILL

	2024	2023
	£'000	£'000
Benthyciadau banc, gorddrafftiau a benthyciadau eraill	157	148
Costau cyllid pensiwn (nodyn 22)	-	520
	<u>157</u>	<u>668</u>

10. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

Rhoddyd pris ar y tir ac adeiladau yn 1993 gan Brisiwr Ardal Casnewydd, ar sail Gwerth y Farchnad Agored ar gyfer Defnydd Presennol, neu yn achos adeiladau arbenigol, ar sail Cost Amnewid Ddibrisiedig, i'w hymgorffori yn y fantolen. Gwerth y prisiad ar 1 Ebrill 1993 oedd £29,885,000, gyda £23,212,000 ohono yn ymwneud ag adeiladau a £6,673,000 yn ymwneud â thir.

Oherwydd y trosglwyddwyd tir ac adeiladau etifeddol o'r Awdurdod Addysg Lleol i'r Coleg o dan delerau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 am gost £dim, pe na baent wedi'u priso, byddent wedi cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol ar gost hanesyddol o £dim. Pe bai'r asedau hyn yn cael eu gwerthu, yna byddai'n rhaid i'r Coleg naill ai ildio enillion y gwerthiant i Lywodraeth Cymru neu eu defnyddio yn unol â'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Prisiwyd y tir ac adeiladau a gafodd eu rhoddi ar 21 Gorffennaf 2012 (Parth Dysgu Blaenau Gwent) a 27 Awst 2020 (Parth Dysgu Torfaen) gan Cooke & Arkwright ac maent wedi'u dibrisio yn ystod y flwyddyn yn unol â pholisi dibrisiant y Coleg.

	Tir Rhydd- ddaliad a Thir â Thenantiaeth Hir £'000	Adeiladau £'000	Gosodiadau a Ffitiadau £'000	Asedau yn ystod y gwaith adeiladu £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad					
Ar 1 Awst 2023	7,193	88,893	48,920	5,243	150,249
Ychwanegiadau	-	-	-	3,096	3,096
Gwarediadau	-	-	(35)	-	(35)
Ailddosbarthiadau	-	-	5,943	(5,943)	-
<i>Ar 31 Gorffennaf 2024</i>	7,193	88,893	54,828	2,396	153,310
Dibrisiant Cronedig					
Ar 1 Awst 2023	390	38,894	24,003	-	63,287
Ffioedd am y flwyddyn	12	1,354	5,509	-	6,875
Gwarediadau	-	-	(19)	-	(19)
<i>Ar 31 Gorffennaf 2024</i>	402	40,248	29,493	-	70,143
Gwerth Llyfr Net ar 31 Gorffennaf	6,791	48,645	25,335	2,396	83,167
Gwerth Llyfr Net ar 31 Gorffennaf	6,803	49,999	24,917	5,243	86,962

11. BUDDSODDIADAU ANGHYREDOL

Mae Coleg Gwent Enterprises Cyf a Coleg Gwent Catering Cyf yn gwmnïau segur. Cyfeiriad cofrestredig yr holl is-gwmnïau yw: - Y Rhadyr, Brynbuga, Trefynwy, NP15 1X

12. ASED AU ETIFEDDIAETH

	2024 £'000	2023 £'000
Balansau Arian Parod	64	64
Cyfanswm	64	64

13. STOCIAU

	2024 £'000	2023 £'000
Stoc y ffreutur a'r bar	<u>2</u>	<u>2</u>
Cyfanswm	<u>2</u>	<u>2</u>

14. MASNACHAETH A SYMIAU DERBYNIADWY ERAILL

	2024 £'000	2023 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Symiau masnach derbyniadwy	496	460
Adneuon galw tymor byr	21,000	-
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	<u>1,466</u>	<u>2,453</u>
Cyfanswm	<u>22,962</u>	<u>2,913</u>

Mae'r Coleg wedi gwneud taliadau i gyfrifon adnau galw tymor byr. Mae banciau yn y DU yn dal y rhain, a chânt buddsoddi yn unol â pholisi Rheoli Trysorlys y Coleg. Cyfanswm yr adneuon tymor byr hyn yw £21,000. Disgwylir i £5,000 aeddfedu ar 19/09/2024, £3,000 ar 28/10/2024, £8,000 ar 16/01/2025 a £5,000 ar 30/04/2025.

15. CREDYDWYR - SYMIAU SY'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

	2024 £'000	2023 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Benthyciadau banc (gweler nodyn 17)	321	302
Symiau masnach sy'n daladwy	72	454
Croniadau ac incwm gohiriedig	7,176	7,533
Grantiau'r Llywodraeth a dderbyniwyd ymlaen llaw - Cyfalaf Gohiriedig	3,220	4,061
Grantiau Eraill ymlaen llaw	<u>3,564</u>	<u>10,359</u>
Cyfanswm	<u>14,353</u>	<u>22,786</u>

16. CREDYDWYR - SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ÔL MWY NA BLWYDDYN

	2024 £'000	2023 £'000
Benthyciadau banc	2,194	2,515
Incwm gohiriedig - grantiau llywodraeth	<u>52,630</u>	<u>52,973</u>
Cyfanswm	<u>54,824</u>	<u>55,488</u>

17. AEDDFEDU DYLED - BENTHYCIADAU BANC A GORDDRAFFTIAU

Mae benthyciadau banc yn ad-daladwy fel a ganlyn:

	2024 £'000	2023 £'000
Benthyciadau banc sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	321	303
Rhwng un a dwy flynedd	341	321
Rhwng dwy a phum mlynedd	972	1,085
Mewn pum mlynedd neu fwy	881	1,109
Cyfanswm	2,515	2,818

Mae gan y Coleg dri chyfleuster a dynnwyd i lawr fel a ganlyn:

Banc	Swm y Benthyciad £k	Diogelwch	Cyfradd llog	Amserlen dalu
Banc Cenedlaethol San Steffan	1,125	Llyfrgell Casnewydd	Yn seiliedig ar SONIA a gyfrifwyd yn ddyddiol	96 rhandaliad chwarterol gan ddod i ben Awst 2028
Banc Cenedlaethol San Steffan	1,800	Bloc Celf Crosskeys	Yn seiliedig ar SONIA a gyfrifwyd yn ddyddiol	96 rhandaliad chwarterol gan ddod i ben Awst 2028
Lloyds TSB	2,900	Ansicredig	5.584%	92 rhandaliad chwarterol gan ddod i ben ym mis Ionawr 2034

18. DARPARIAETHAU ERAILL

	Darpariaeth Cau Pont-y- pŵl £'000	Arall £'000	Darpariaeth Bensiwn Uwch £'000	Darpariaeth tâl gwyliau £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Awst 2023	184	50	1,274	667	2,175
Crëwyd / (Defnyddiwyd) yn ystod y flwyddyn	-	(50)	(61)	21	(90)
Codi tâl i gyfrif Incwm/Gwariant (rhyddawyd)	-	-	-	-	-
Cyfanswm	184	-	1,213	688	2,085

Mae Ddarpariaeth Cau Pont-y-pŵl yn ymwneud â chau Campws Pont-y-pŵl lle gwnaethpwyd y penderfyniad i gau ym mis Mai 2023. Gwnaethpwyd y ddarpariaeth ar gyfer gweddill y costau a godir ym mlwyddyn ariannol 24/25.

Mae'r ddarpariaeth bensiwn uwch yn ymwneud â chost y staff sydd eisoes wedi gadael cyflogaeth gyda'r y Coleg ac ymrwymadau o ran costau ad-drefnu na all y Coleg dynnu'n ôl ohonynt yn rhesymol ar ddyddiad y fantolen.

Y prif ragdybiaethau ar gyfer y cyfrifiad hwn yw:

	2024	2023
Chwyddiant Mewn Prisiau	2.8%	2.8%
Cyfradd Ddisgownt	4.8%	5%

Mae'r ddarpariaeth tâl gwyliau yn ymwneud â buddion yr holl weithwyr tymor byr sy'n dal heb eu cymhwyso ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r buddion hyn yn ymwneud â gwyliau blynyddol sydd dal i'w cymryd ar 31 Gorffennaf 2024.

19. ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

	Ar 1 Awst 2023 £'000	Llifiau arian parod £'000	Ar 31 Gorffennaf 2024 £'000
Arian parod a chyfwerth	33,605	(27,143)	6,462

20. CYFALAF AC YMRWYMIADAU ERAILL

	2024 £'000	2023 £'000
Ymrwymadau a gontractiwyd ar 31 Gorffennaf	<u>2,309</u>	<u>3,195</u>
Cyfanswm	<u>2,309</u>	<u>3,195</u>

21. RHWYMEDIGAETHAU PRYDLES

Ar 31 Gorffennaf roedd gan y Coleg isafswm taliadau prydles sydd yn dod o dan brydlesi gweithredol na ellir eu canslo fel a ganlyn:

	2024 £'000	2023 £'000
Arall (nid tir ac adeiladau)		
Ddim yn hwyrach nag un flwyddyn	308	253
Yn hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	1,106	572
Mwy na phum mlynedd	15	-
Cyfanswm	<u>1,429</u>	<u>825</u>

22. RHWYMEDIGAETHAU BUDDION PENSIWN DIFFINIEDIG

Mae gweithwyr y Coleg yn perthyn i ddau brif gynllun pensiwn: Cynllun Pensiwn Athrawon Cymru a Lloegr (The Teachers' Pension Scheme England and Wales - TPS) ar gyfer staff academiaidd a staff cysylltiedig; a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon, a reolir gan Gyngor Bwrdeistref Torfaen. Mae'r ddau yn gynlluniau buddion diffiniedig.

Asesir y costau pensiwn yn unol â chyngor actiwariaid cymwys ac annibynnol. Cynhaliwyd y prisiad actiwaraid ffurfiol diweddaraf gan TPS ym Mawrth 2020 a'r LGPS ar 31 Mawrth 2022.

Cyfanswm Cost Pensiynau am y flwyddyn

	2024 £'000	2023 £'000
Cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Athrawon	5,568	4,938
Cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		
Cyfraniadau a dalwyd	3,258	2,858
Symudiad mewn croniadau/addasiadau LS	8	2
"FRS 102" (credyd)/tâl	(345)	1,613
Tâl a godwyd i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr	2,921	4,473
Tâl Pensiwn Uwch / (credyd) i'r Cyfrif Incwm a Gwariant	98	(102)
Cyfanswm tâl pensiynau	8,587	9,309

Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA)

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA) yn gynllun buddion statudol, cyfrannol a diffiniedig a sy'n ddarostyngedig i Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Athrawon 2014. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i athrawon mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill, gan gynnwys Colegau. Mae athrawon a darlithwyr mewn sefydliadau cymwys yn aelodau ohono'n awtomatig. Mae athrawon a darlithwyr yn gallu dewis peidio â bod yn rhan o'r CPA

Cynllun heb ei ariannu yw'r CPA, ac mae ei aelodau'n cyfrannu ar sail 'tal wrth fynd' - caiff y cyfraniadau hyn, ynghyd â'r rhai a wneir gan gyflogwyr, eu credydu i'r Trysorlys o dan drefniadau sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf uchod. Caiff buddion ymdeol (a buddion pensiwn eraill) eu talu gan Gronfeydd Cyhoeddus a ddarperir gan y Senedd.

O dan y diffiniadau a nodir yn FRS 102 (28.11), mae'r TPS yn gynllun pensiwn aml-gyflogwr. Nid oes modd i'r coleg nodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun.

Yn unol â hynny, mae'r Coleg wedi manteisio ar yr eithriad yn FRS 102 ac wedi cyfrif am ei gyfraniadau i'r cynllun fel pe bai'n gynllun â chyfraniadau diffiniedig.

Caiff prisiad y TPS ei gynnal yn unol â rheoliadau a wnaethpwyd o dan Ddeddf Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Mae prisiadau yn credydu cyfrif pensiwn yr athrawon a chyfradd adennill go iawn gan dybio y caiff cronfeydd eu buddsoddi mewn buddsoddiadau tybiannol sy'n cynhyrchu'r gyfradd adennill go iawn honno.

Cynhaliwyd yr adolygiad actiwaraid diweddaraf o'r CPA ar 31 Mawrth 2020. Cyhoeddwyd yr adroddiad prisiad gan yr Adran Addysg (yr Adran) ym mis Ebrill 2019. Fe nododd y prisiad gyfanswm rhwymedigaethau'r cynllun (sef pensiynau sydd wrthi'n cael eu talu a chost amcangyfrifedig budd-daliadau yn y dyfodol) am wasanaethau hyd at y dyddiad dod i rym o £218 biliwn, ac asedau tybiannol (cyfraniadau amcangyfrifedig yn y dyfodol ynghyd â'r buddsoddiadau tybiannol a ddelir ar ddyddiad y prisiad) gwerth £198 biliwn, sef diffyg gwasanaeth tybiannol yn y gorffennol o £22 biliwn.

O ganlyniad i'r prisiad, gosodwyd cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr newydd ar 28.68% o'r cyflog pensiwnadwy o fis Medi 2019 ymlaen (o'i gymharu â 16.48% yn ystod 2018/19). Mae'r Adran Addysg wedi cytuno i dalu grant cyfraniad gan gyflogwyr i bensiynau athrawon er mwyn gallu talu'r costau ychwanegol yn ystod blwyddyn academiaidd 2020/21.

RHWYMEDIGAETHAU PENSIWN BUDDION DIFFINIEDIG (PARHAD)

Gweler copi llawn o'r adroddiad prisio a'r ddogfennaeth ategol ar wefan Cynllun Pensiwn yr Athrawon Cyfanswm y costau pensiwn a dalwyd i CPA yn ystod y flwyddyn oedd £5,568k (2023 £4,938k)

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)

Mae'r CPLIL yn gynllun buddion diffiniedig a ariennir, gydag Awdurdod Unedol Torfaen yn rheoli'r asedau sy'n cael eu dal mewn cronfeydd ar wahân. Cyfanswm y cyfraniadau a wnaethpwyd dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 oedd £4,283k. O'r cyfanswm hwn, cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwyr oedd £3,266k a chyfanswm cyfraniadau'r gweithwyr oedd £1,017k. Y cyfraddau cyfraniad y cytunwyd arnynt ar gyfer y blynyddoedd i ddod yw 19.8% ar gyfer cyflogwyr ac maent yn amrywio o 5.5% i 12.5% ar gyfer gweithwyr, gan ddibynnu ar gyflog.

Achos cyfreithiol Virgin Media Limited

Fe benderfynodd dyfarniad cyfreithiol gan yr Uchel Lys ym mis Mehefin 2023 (Virgin Media Cyf v NTL Pension Trustees II Cyf) bod rhai diwygiadau i reolau buddion rhwng 1997 a 2016 ar gyfer cynlluniau buddion diffiniedig a gafodd eu contractio yn allanol yn annilys os nad oeddent gyda'r cadarnhad actiwaraid cywir. Er bod y dyfarniad dim ond yn berthnasol i'r cynllun pensiwn penodol sydd dan sylw, mewn achos cydraddoli GMP, os yw'r dyfarniad yn sefyll, yna bydd yn rhan o gyfraith achos a chael ei gymhwyso ar draws cynlluniau pensiwn eraill. Roedd y dyfarniad yn destun apêl a gafodd ei glywed ar 25 Mehefin 2024 ond roedd hyn yn aflwyddiannus.

Mae effaith dyfarniad Virgin Media ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol bellach yn destun ymchwiliad gan Drysorlys EM a disgwylir canllawiau maes o law.

Prif Ragdybiaethau Actiwaraid

Mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar brisiad actiwaraid llawn o'r gronfa ar 31 Mawrth 2022, wedi'i ddiweddarau i 31 Gorffennaf 2024 gan actiwari annibynnol cymwysedig.

	Ar 31 Gorffennaf 2024 %	Ar 31 Gorffennaf 2023 %
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	3.25	3.50
Cyfradd ddisgownt ar gyfer rhwymedigaethau'r cynllun	5.00	5.05
Rhagdybiaeth chwyddiant (CPI)	2.75	3.00

Mae'r rhagdybiaethau marwoldeb presennol yn cynnwys lwfans digonol ar gyfer gwelliannau mewn cyfraddau marwoldeb yn y dyfodol. Y disgwyliadau oes tybiedig ar oedran ymddeol 65 yw:

	2024 %	2023 %
Ymddeol heddiw		
Dynion	20.6	20.6
Menywod	23.4	23.4
Ymddeol mewn 20 mlynedd		
Dynion	21.2	21.3
Menywod	25.0	25.0

RHWYMEDIGAETHAU PENSIWN BUDDION DIFFINIEDIG (PARHAD)

Mae'r swm sydd wedi'i gynnwys yn y fantolen mewn perthynas â'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig fel a ganlyn:

	2024	2023
	£'000	£'000
Gwerth teg asedau'r cynllun	106,867	93,785
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(92,509)	(88,197)
Gwarged Pensiynau Net / (Rhwymedigaeth)	14,358	5,588

Mae'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr mewn perthynas â'r cynllun fel a ganlyn:

	2024	2023
	£'000	£'000
Symiau sydd wedi'u cynnwys mewn costau staff		
Cost gwasanaethau presennol	2,913	4,471
Cyfanswm	2,913	4,471

	2024	2023
	£'000	£'000
Symiau sydd wedi'u cynnwys mewn incwm/cost cyllid		
Incwm llog net/(cost)	283	(520)
Cyfanswm	283	(520)

Mae'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr mewn perthynas â'r cynllun fel a ganlyn:

	2024	2023
	£'000	£'000
Swm a Gydabyddir Mewn Incwm Cynhwysfawr Arall		
Enillion ar asedau'r cynllun pensiwn	(6,900)	(734)
Enillion profiad i godi o rwymedigaethau buddion diffiniedig	2,748	10,872
Newid mewn rhagdybiaethau ariannol	(3,790)	(26,824)
Newidiadau mewn rhagdybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(186)	(5,047)
Swm a Gydabyddir Mewn Incwm Cynhwysfawr Arall	(8,128)	(21,733)

Symudiad mewn rhwymedigaeth ddiffiniedig net yn ystod y flwyddyn

Rhwymedigaeth buddion diffiniedig net yn y cynllun ar 1 Awst	5,589	(14,012)
Symudiad yn ystod y flwyddyn;		
Cost gwasanaethau presennol	(2,913)	(4,471)
Cyfraniadau gan gyflogwr	3,258	2,858
Llog net ar yr ased/(rhwymedigaeth) diffiniedig	283	(520)
Enillion actiwaraid	8,128	21,733
Gwarged Buddion Net Diffiniedig ar 31 Gorffennaf	14,345	5,588

RHWYMEDIGAETHAU PENSIWN BUDDION DIFFINIEDIG (PARHAD)

Cysoni Asedau a Rhwymedigaethau

Newidiadau yng ngwerth presennol rhwymedigaethau buddion diffiniedig

Rhwymedigaethau buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod	(88,197)	(103,085)
Cost gwasanaethau presennol	(2,913)	(4,471)
Cost llog	(4,488)	(3,659)
Cyfraniad gan gyfranogwyr y cynllun	(1,017)	(943)
Budd-daliadau a dalwyd	2,865	2,463
Newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	3,790	26,824
Newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	186	5,047
Profiad arall	(2,748)	(10,373)
Rhwymedigaethau buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod	(92,522)	(88,197)

Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod	93,786	89,073
Llog ar asedau'r cynllun	4,771	3,139
Enillion ar asedau'r cynllun	6,900	734
Cyfraniad gan gyflogwyr	3,258	2,858
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	1,017	943
Profiadau Eraill	-	(499)
Budd-daliadau a dalwyd	(2,865)	(2,463)
Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod	106,867	93,785

23. TRAFODION GAN BARTIÖN CYSYLLTIEDIG

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i'r Llywodraethwyr neu ar eu rhan yn ystod y flwyddyn oedd £745.00. (2023 £dim). Mae hyn yn cynrychioli costau teithio a chynhaliath a chostau 'allan o boced' eraill wrth fynychu cyfarfodydd Llywodraethwyr a digwyddiadau elusennol yn eu rhinwedd swyddogol.

Nid oes unrhyw Lywodraethwr wedi derbyn unrhyw gydnyddiaeth na thaliadau a hepgorwyd gan y Coleg yn ystod y flwyddyn (2023 £dim).

24. SYMIAU A DALWYD FEL ASIANT

	2024	2023
	£'000	£'000
Cydbwysedd wedi'i ddwyn ymlaen	54	73
Grantiau gan gyrff ariannu - cymorth dewisol i fyfyrwyr	1,140	1,221
	1,194	1,294
A dalwyd i fyfyrwyr	(1,158)	(1,205)
Costau gweinyddu	(34)	(35)
Balans fel yr oedd ar 31 Gorffennaf sydd wedi'i gynnwys mewn credydwyr	2	54

Mae grantiau gan gyrff cyllido ar gael i fyfyrwyr yn unig. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r Coleg yn gweithredu fel asiant talu yn unig. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'r grantiau a'r taliadau cysylltiedig felly wedi'u heithrio o'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.